Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2012-2016

Gweithio dros

Gydraddoldeb

yng Nghymru

Ebrill 2012

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gael mewn fformatau ac ieithoedd eraill. Os hoffech wneud cais am y wybodaeth hon mewn fformat arall rhowch wybod i ni.

Byddem yn croesawu eich adborth ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Gallwch gysylltu â ni i roi eich adborth a gwneud cais am fformatau eraill gan ddefnyddio'r wybodaeth isod:

Drwy'r Post:

Yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Llywodraeth Cymru
Ail Lawr Adain y Dwyrain
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Drwy e-bost:

SEPMailbox@wales.gsi.gov.uk

Dros y Ffôn:

Cymraeg: 0300 0604400 neu 0845 010 4400
Saesneg: 0300 060 3300 neu 0845 010 3300

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn y fformat hwn ac mewn fformat hawdd ei ddarllen – www.cymru.gov.uk/topics/equality

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 0 7504 7369 9
ISBN digidol 978 0 7504 7371 2
© Hawlfraint y Goron 2012
WG14801

Rhagair gan y Gweinidog

Mae cydraddoldeb a chynhwysiant wrth galon Llywodraeth Cymru. Un o'r egwyddorion craidd sydd wrth wraidd y Rhaglen Lywodraethu yw datblygu cynaliadwy a lles; mae cydraddoldeb a chynhwysiant yn rhan annatod o hyn ac maent wedi'u hymgorffori yn y rhaglen drwyddi draw yn ogystal ag ym Mhennod 8 'Sefyll dros Gydraddoldeb'. Mae cymryd camau i fynd i'r afael â thlodi hefyd yn agwedd allweddol ar y gwaith o sicrhau lles pobl. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni hyn drwy ei Chynllun Gweithredu i Fynd i'r Afael â Thlodi a byddwn yn sicrhau bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu i Fynd i'r Afael â Thlodi.

Mae'r Gymru sydd ohoni yn gymdeithas sydd wedi'i hadeiladu ar gymunedau amrywiol ac amlddiwylliannol sy'n cynnwys unigolion o lu o gefndiroedd gwahanol a chanddynt nodweddion a phrofiadau unigryw. Credaf yn gryf mai dyma sy'n gwneud Cymru yn genedl mor fywiog.

Mae Cymru yn wlad sy'n parhau i fod yn seiliedig ar egwyddorion tegwch a chydraddoldeb ac mae angen annog a chefnogi'r ymagwedd hon. Mae pob un ohonom am fyw mewn cymdeithas ddiogel lle ceir cyfle cyfartal, lle mae unigolion o wahanol gefndiroedd yn byw'n gytûn gyda'i gilydd a lle na oddefir gwahaniaethu. Mae hyn yn hanfodol i alluogi Cymru i dyfu a ffynnu er budd y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Rwy'n hynod falch bod yr ymagwedd hon yn cael ei hadlewyrchu yn Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru a Chynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r rhain yn nodi sut mae'r Llywodraeth yn cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a'r dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru. Mae'r ymagwedd hon yn fwy na geiriau ar bapur ac mae'n nodi'r canlyniadau rydym am eu cyflawni, sut rydym yn mynd i wneud hynny a sut y gallwn fesur effaith ein gweithredoedd.

Bwriedir i'r dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus a chyflogaeth yn deg ac yn hygyrch i unigolion â nodweddion gwarchodedig, sef oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaethau sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chredo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Ceir rhwystrau y mae angen eu dileu er mwyn sicrhau cyfle cyfartal i bob un ohonom ac mae'r Cynllun hwn yn nodi'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio arno er mwyn cyflawni hyn.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn seiliedig ar wyth Amcan Cydraddoldeb allweddol a ddatblygwyd yn dilyn gweithgarwch ymgysylltu helaeth, gan gynnwys holiadur a gwblhawyd gan 429 o unigolion a chyfarfodydd wyneb yn wyneb ledled Cymru. Mae'r Amcanion hefyd wedi'u hategu â thystiolaeth a data sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'r dull gweithredu hwn wedi helpu i nodi'r rhwystrau mwyaf i gydraddoldeb y mae angen i'r Llywodraeth fynd i'r afael â hwy, yn ogystal â sefydliadau partner.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Sector Cyhoeddus ledled Cymru i hyrwyddo'r Amcanion Cydraddoldeb a chyflawni rôl gydgysylltu er mwyn sicrhau bod Amcanion sefydliadau eraill yn adlewyrchu materion ac anghenion lleol.

Lluniwyd camau gweithredu manwl, sy'n seiliedig ar waith ar draws portffolios y Llywodraeth, a rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed er mwyn sicrhau atebolrwydd clir a thryloywder. Dim ond y dechrau yw'r dull hwn o weithredu yng Nghymru ac ni fydd yr Amcanion Cydraddoldeb yn aros yn ddigyfnewid a byddant yn datblygu ac yn adlewyrchu sut y caiff y gwaith ar gydraddoldeb a chynhwysiant ei ddatblygu a'i gyflawni yn y dyfodol.

Mae'r dyletswyddau sy'n benodol i Gymru yn cynnig cyfle unigryw i ni sicrhau canlyniadau drwy Amcanion Cydraddoldeb sy'n wirioneddol bwysig ac sydd wrth wraidd cydraddoldeb, gwrthwahaniaethu a chydberthnasau da rhwng unigolion yng Nghymru.

Cynnwys

1. Cyflwyniad – Llywodraeth Cymru yn Gwneud i Gydraddoldeb Weithio i Gymru 7
2. Hawliau Dynol 12
3. Datblygu'r Amcanion Cydraddoldeb – Ymgysylltu 13
4. Holiadur ar Faterion Cydraddoldeb 14
5. Tystiolaeth 16
6. Caffael 17
7. Yr Amcanion Cydraddoldeb 18
8. Ein Rôl fel Cyflogwr 94
   - Yr hyn rydym yn ei wneud 94
   - Ein Gweithlu 94
   - Asesu Perfformiad 95
   - Y Gwahaniaeth mewn Cyflog 96
   - Yr hyn y byddwn yn ei wneud 99
   - Amcan Cydraddoldeb Cyflogwyr 100
9. Y Sail Dystiolaeth a Gwybodaeth Gyffredinol am Gydraddoldeb a ddelir gan Lywodraeth Cymru 106
10. Nodi Gwybodaeth Berthnasol a'i Chyhoeddi 107
11. Y Broses Monitro ac Adolygu er mwyn i Lywodraeth Cymru gyflawni'r Cynllun a'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol 110
12. Effeithiau ar Gydraddoldeb 112

13. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn Hyrwyddo Gwybodaeth a Dealltwriaeth 114
- Yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 114

14. Caffael 116

15. Diolch 118

Atodiad 1 119

Yr Holiadur ar Faterion Cydraddoldeb 119
- Methodoleg 119
- Dadansoddi 120

Atodiad 2 121

Mynegai Talfyriadau 121

1. Cyflwyniad –

Llywodraeth Cymru yn Gwneud i Gydraddoldeb Weithio i Gymru

Ers datganoli yn 1999 mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio i wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau yng Nghymru, gan wella ansawdd bywyd i'r genhedlaeth bresennol ac i genedlaethau'r dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei hystod eang o arbenigedd i ddatblygu deddfwriaeth effeithiol a pholisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae hyn yn llywio holl waith Llywodraeth Cymru, gan gynnwys datblygu a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae llawer o gyfleoedd i hybu cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a meithrin cydberthnasau da yng Nghymru yn y meysydd datganoledig hynny y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt. Mae'r meysydd datganoledig hyn yn cynnwys y pŵer i weithredu ym meysydd addysg a sgiliau; iechyd; gwasanaethau cymdeithasol; busnes, menter, technoleg a gwyddoniaeth; tai; diwylliant; yn ogystal â meysydd eraill megis materion gwledig ac amaethyddiaeth.

Mae adrannau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru wedi'u grwpio'n feysydd pwnc a elwir yn Gyfarwyddiaethau. Arweinir pob un o'r saith Cyfarwyddiaeth gan Gyfarwyddwr Cyffredinol sy'n arwain rhaglenni trawsbynciol ac yn sicrhau bod gweithio cydgysylltiedig rhwng pob adran yn digwydd. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl i'w chwarae wrth sicrhau y caiff cydraddoldeb ei brif ffrydio a'i ymgorffori ym meysydd Cyfarwyddiaethau. Ceir rhagor o wybodaeth am gyfarwyddiaethau yn y ddolen ganlynol: wales.gov.uk/about/civilservice/directorates/?lang=cy

Mae cydraddoldeb yn rhan annatod o ddeddfwriaeth sefydlu Llywodraeth Cymru, sef Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006. Adlewyrchir cydraddoldeb a chynhwysiant yn ein hegwyddorion arweiniol ac, ar y cyd â chynaliadwyedd a lles, maent yn sail i bopeth a wnawn.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n galed i gyflawni ein hymrwymiad i sicrhau y caiff pob dinesydd gyfle i gyfrannu at fywyd cymdeithasol ac economaidd Cymru. Byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar y rhai â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sef: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chredo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd cydraddoldeb newydd ar y sector cyhoeddus. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i awdurdod cyhoeddus a restrir yn Atodiad 19 i'r Ddeddf ystyried yn briodol yr angen i wneud y canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu;
- Meithrin cydberthnasau da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

Llywodraeth Cymru oedd y rhan gyntaf o Brydain Fawr i reoleiddio er mwyn creu dyletswyddau penodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae gan gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ddyletswydd statudol i gyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb erbyn 2 Ebrill 2012 ac mae'n rhaid iddynt ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyn gynted â phosibl ar ôl hynny.

Rydym hefyd yn unigryw fel yr unig Lywodraeth ym Mhrydain Fawr sydd â rhwymedigaeth statudol i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) ar bob un o'n polisïau, ein prosesau a'n harferion, gan gynnwys ein Cyllideb.

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid, eu cynnwys ac ymgynghori â hwy yn un o ofynion hanfodol y dyletswyddau ac mae'r rheoliadau yn

ei gwneud yn ofynnol i ni ymgysylltu ag unigolion â nodweddion gwarchodedig wrth ystyried a llunio ein Hamcanion Cydraddoldeb. Mae'r gofyniad hwn i ymgysylltu, cynnwys ac ymgynghori hefyd yn ein gosod ar wahân ar hyn o bryd i wledydd eraill Prydain Fawr.

Mae cysylltiad hanfodol rhwng ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ("y Cynllun") a'n strategaethau presennol a'n strategaethau sy'n datblygu, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn union â'i gilydd, gan gydweithio i gydgysylltu ein dull o gyflawni gwell canlyniadau i bobl Cymru.

Mae gan Lywodraeth Cymru hanes o ymrwymo i gyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal ac oherwydd y sefyllfa economaidd ac ariannol ar hyn o bryd mae'n bwysicach fyth ein bod yn parhau â'n hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi drwy flaenoriaethu anghenion y rhai tlotaf a diogelu'r rhai sydd fwyaf agored i dlodi ac ymylu. Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb, ynghyd â'r 'Cynllun Gweithredu i Fynd i'r Afael â Thlodi' yn darparu'r fframwaith ar gyfer yr ymdrechion hyn.

Bydd y 'Cynllun Gweithredu i Fynd i'r Afael â Thlodi' yn seiliedig ar y themâu canlynol: atal tlodi; helpu unigolion i'w codi eu hunain allan o dlodi drwy ddileu rhwystrau i gyflogaeth; a gweithredu i wella ansawdd bywyd y rhai hynny sy'n byw mewn tlodi.

Caiff camau gweithredu yn y meysydd hyn eu datblygu mewn ffyrdd sy'n atgyfnerthu pob un o'r Amcanion Cydraddoldeb. Dylai gofal plant fforddiadwy o safon dda helpu plant i gyrraedd cerrig milltir datblygiadol pwysig: ar yr un pryd bydd yn creu swyddi i rai ac yn dileu rhwystr i gyflogaeth i eraill. Dylai camau gweithredu cynnar ac wedi'u targedu i atal pobl ifanc rhag gadael addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth fod o fudd uniongyrchol iddynt ond dylent hefyd fod o fudd i'r genhedlaeth nesaf. Dylai cyngor sy'n helpu unigolion i ymdrin â dyledion, neu fynd ar-lein, fod yn sail i'w galluogi i reoli eu harian yn gynaliadwy a grymuso unigolion i ymwneud mwy â gwaith a chymdeithas.

Mae pobl mewn ardaloedd gwledig yn aml yn wynebu rhwystrau penodol ac ychwanegol, ac mae hyn wedi'i godi fel rhan o'n gweithgarwch ymgysylltu mewn perthynas â'r Amcanion Cydraddoldeb. Mae 'prawfesur polisïau gwledig' er mwyn sicrhau y caiff effaith polisïau a phenderfyniadau ar gymunedau gwledig ei hystyried yn rhan annatod o'r Rhaglen Lywodraethu. Bydd hyn yn cynnwys y camau gweithredu o dan yr amcanion cydraddoldeb a bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau bod hyn yn cyd-fynd yn agosach â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau bod cysylltiadau yn cael eu creu â fframweithiau a strategaethau allweddol.

Ehangodd rhaglen 'Yr Hawl i Fod yn Ddiogel' gyrhaeddiad a chwmpas ein gwaith ar drais yn erbyn merched a cham-drin yn y cartref, gan adeiladu ar strategaeth 'Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref; Dull Partneriaeth', a 'Teithio at Ddyfodol Gwell' oedd y Fframwaith cenedlaethol cyntaf ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn y DU. Y nod yw mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a wynebir gan y gymuned Sipsiwn a Theithwyr, sicrhau cyfle cyfartal i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr a galluogi'r gymuned i gael gafael ar adnoddau a gwasanaethau prif ffrwd.

Mae camau gweithredu yn mynd i'r afael ag iechyd a gofal parhaus, addysg a hyfforddiant, cyfranogiad ac ymgysylltu, llety a chyflogaeth. Nod y fframwaith yw gwella presenoldeb a chyrhaeddiad mewn addysg, gan fynd i'r afael â chyfraddau uchel o farwolaethau babanod, damweiniau a salwch a disgwyliad oes isel ac mae'n canolbwyntio'n arbennig ar ddarparu llety. Mae tystiolaeth bod cartref parhaol wrth wraidd y rhan fwyaf o'r agweddau eraill ar fywyd a'r gallu i gael gafael ar wasanaethau.

Mae'r Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar Gynnwys Ffoaduriaid yn adlewyrchu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gynnwys ffoaduriaid yng Nghymru. Gall ffoaduriaid wneud cyfraniad gwirioneddol at Gymru a bywyd yng Nghymru ac maent yn gwneud hynny; mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod hyn yn parhau.

Lansiwyd Strategaeth Cydlyniad Cymunedol y Llywodraeth i Gymru 'Cymru'n Cyd-dynnu' ym mis Rhagfyr 2009. Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar yr angen i greu cymunedau cydnerth a chynhwysol ac ar feysydd polisi gan gynnwys tai, cyfathrebu, dysgu, cydraddoldebau, cynhwysiant cymdeithasol a mynd i'r afael ag eithafiaeth. Mae'r strategaeth hon wedi cael cymorth ariannol yn y gorffennol gan y Gronfa Cydlyniant Cymdeithasol a rhwng mis Ebrill 2012 a mis Mawrth 2014 byddwn yn rhoi arian ar gyfer wyth swydd Cydgysylltydd Rhanbarthol Cydlyniant Cymunedol ledled Cymru.

Cyhoeddwyd y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru gyntaf yn 2003, a'i diwygio yn 2008. Mae'n cynnwys ymrwymiad i ddatblygu trydydd cam, a hon oedd y Strategaeth gyntaf ar heneiddio yn y DU. Mae'n nodi uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer y boblogaeth sy'n heneiddio. Mae gan y Strategaeth gefnogaeth drawsbleidiol ac mae iddi berthnasedd a bwriad polisi ar draws Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn cyhoeddi Fframwaith ar gyfer Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol yn ystod haf 2012. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â rhwystrau ac yn cefnogi pobl anabl er mwyn iddynt allu byw'n annibynnol a gwneud dewisiadau a rheoli eu bywydau bob dydd. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag Anabledd Cymru a sefydliadau partner i nodi'r camau y gallwn eu cymryd i ddileu rhwystrau a hyrwyddo hawliau pobl anabl er mwyn eu galluogi i gyfranogi'n llawn mewn cymdeithas yng Nghymru.

Nid yw'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol na'r Amcanion Cydraddoldeb yn cynnwys yr iaith Gymraeg am fod hawliau o ran y Gymraeg yn cael eu harwain gan Uned y Gymraeg o fewn Llywodraeth Cymru. Bydd swyddogion o'r Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDID) ac Uned y Gymraeg yn cydweithio i sicrhau bod y camau a gymerir yn y ddau faes hyn yn ategu ac yn llywio ei gilydd.

2. Hawliau Dynol

Mae gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig i'w chwarae i hyrwyddo hawliau dynol. Mae'r rhain wedi'u hymgorffori yng Nghonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig ac mae gan bob awdurdod lleol ddyletswyddau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

Fel rhan o gydnabod pwysigrwydd hawliau dynol, mae'r Llywodraeth wedi seilio'r gwaith a wneir ganddo mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ar gyflawni nodau craidd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Gan adeiladu ar hyn, mae gennym ni yng Nghymru Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog i roi sylw priodol i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn CCUHP a'i 'Brotocolau Dewisol', fel y'u gelwir, wrth wneud penderfyniadau polisi strategol.

O dan y Mesur mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cynllun plant a llunio adroddiadau ar sut maent yn cydymffurfio â'r ddyletswydd ac yn hyrwyddo dealltwriaeth o CCUHP.

Mae'n bwysig, yn y dyfodol, fod cysylltiadau cryf yn cael eu creu rhwng cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol o fewn Llywodraeth Cymru a bydd yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn arwain y gwaith hwn.

3. Datblygu'r Amcanion Cydraddoldeb – Ymgysylltu

Bu cryn dipyn o ymgysylltu â'r cyhoedd o ran yr Amcanion a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a ddechreuodd ym mis Hydref 2011 ac a adeiladodd ar weithgarwch ymgysylltu blaenorol. Bu swyddogion o Lywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i drefnu cyfres o weithdai, fforymau a digwyddiadau eraill i godi ymwybyddiaeth a thrafod manylion yr Amcanion Cydraddoldeb.

Datblygodd y gweithgarwch ymgysylltu hwn ac ymgynghorwyd ag unigolion ledled Cymru, gan roi cyfle iddynt ddylanwadu ar yr Amcanion Cydraddoldeb a'r ffordd y cawsant eu drafftio. Ymhlith y rhain roedd:

- Grwpiau ffocws a oedd yn cynnwys grwpiau nas clywir yn aml ledled Cymru;
- Digwyddiad bord gron gyda phartneriaid cyflawni allweddol;
- Holiadur ar-lein;
- Digwyddiadau rhanbarthol rhwydwaith Cyfnewidfa Gydraddoldeb y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a gynhaliwyd yn Abertawe a Wrecsam;
- Cyfarfodydd â sefydliadau a thrafodaethau mewn fforymau (e.e. Fforwm Hil Cymru)
- Cyfarfodydd â rhanddeiliaid a hwyluswyd gan EDID;
- Gweithdai gyda phartneriaid cyflawni strategol i brofi'r Amcanion diweddaraf;
- Gweithdy Adnoddau Dynol gydag aelodau Rhwydwaith Amrywiaeth Cyflogeion Llywodraeth Cymru ar Amcan Cydraddoldeb drafft i gyflogwyr;

Rydym hefyd wedi dosbarthu Bwletin Dyletswyddau Penodol yn rheolaidd i tua 600 o sefydliadau ac unigolion sy'n rhanddeiliaid ledled Cymru.

4. Holiadur ar Faterion Cydraddoldeb

Gwahoddwyd aelodau o'r cyhoedd (unigolion a sefydliadau) i gwblhau holiadur y bwriadwyd iddo geisio barn pobl ar faterion a oedd yn ymwneud yn benodol â chydraddoldeb.

Gofynnodd yr holiadur gwestiynau ar nifer o agweddau ar fywyd (e.e. addysg, cyflogaeth, iechyd, ac ati). Gofynnwyd i unigolion nodi ym mha rai o'r meysydd hynny roeddent fwyaf tebygol o wynebu problemau neu anawsterau am fod ganddynt un o'r nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

At hynny, roedd unigolion yn gallu nodi meysydd a oedd yn bwysig iddynt. Themâu allweddol a ddeilliodd o'r awgrymiadau ar gyfer gweithredu gan Lywodraeth Cymru oedd:

- Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â phroblemau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth;
- Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i hyrwyddo'r Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn sicrhau bod pob rhan o gymdeithas yn ymwybodol o ofynion y Ddeddf, o unigolion i gyflogwyr;
- Ystyriwyd bod ysgolion yn lleoliad ac yn fan cychwyn pwysig ar gyfer hyrwyddo cymdeithas decach sy'n fwy parod i dderbyn amrywiaeth ac sy'n ei ddeall yn well;
- Wrth hyrwyddo'r Ddeddf Cydraddoldeb, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyngor a gwybodaeth briodol ar gael i unigolion;
- Mae angen gwneud mwy i gefnogi pobl ifanc o ran addysg a chyflogaeth;
- Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â thrais a throseddau casineb sydd wedi'u hanelu at aelodau o'r cyhoedd â nodweddion gwarchodedig;

- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir i unigolion, yn enwedig y rhai â nodweddion gwarchodedig, yn sensitif ac yn briodol i'w hanghenion;
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn ymgysylltu ag unigolion â nodweddion gwarchodedig ac yn gwrando arnynt.

Mae Atodiad 1 yn rhoi trosolwg cryno o fethodoleg a gwaith dadansoddi'r holiadur. Mae adroddiad llawnach wedi'i gyhoeddi ac mae ar gael ar ein gwefan.

5. Tystiolaeth

Cydnabyddir yn eang fod bylchau mawr yn y dystiolaeth ynghylch nodweddion gwarchodedig penodol ac agweddau penodol ar fywyd. Er mwyn llywio ac ategu Amcanion a chamau gweithredu yn y dyfodol mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â'r angen am dystiolaeth ystyrlon a phenodol ynghylch cydraddoldeb. Bydd gweithio gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chyda'r trydydd sector i flaenoriaethu'r gwaith o lenwi'r bylchau hyn.

6. Caffael

Ceir dyletswydd benodol sy'n canolbwyntio'n arbennig ar gaffael ac sy'n cydnabod bod gweithgarwch caffael yn ffactor ysgogi pwysig. Mae hyn wrth wraidd pob un o'n hamcanion a bydd Llywodraeth Cymru yn manteisio ar bob cyfle drwy weithgarwch caffael cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant a gwella arferion cyflogaeth. (Gweler hefyd dudalen 116)

7. Yr Amcanion Cydraddoldeb

Mae ein gweithgareddau ymgysylltu, ynghyd ag ymarfer casglu data a gwybodaeth cynhwysfawr i ddatblygu sail dystiolaeth gadarn a gynhaliwyd gan ein Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS), wedi cyfrannu at y broses o ddatblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb a'i llywio.

Gellid dweud bod pob un o'r Amcanion yn ymdrin â phob "nodwedd warchodedig" i ryw raddau. Fodd bynnag, mae ffocws penodol i amcanion unigol. Mae hyn oherwydd ein bod am flaenoriaethu'r gweithredu a sicrhau'r effaith fwyaf. Bydd yr amcanion yn esblygu dros amser gan ymateb i'r cynnydd a wneir a'r ymgysylltiad â sefydliadau ac unigolion.

Er gwaethaf y diffyg tystiolaeth ar rai o'r nodweddion gwarchodedig, rhaid inni geisio gwneud cynnydd ar y rhain ac, fel rhan o hyn, rhaid inni gryfhau sail y dystiolaeth. Bydd hynny'n ein galluogi ni i nodi'r rhwystrau i gydraddoldeb a chymryd y camau mwyaf effeithiol o ymdrin â hwy.

Amcanion Cydraddoldeb

1. Atgyfnerthu gwasanaethau cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth er mwyn helpu unigolion â nodweddion gwarchodedig ddeall ac arfer eu hawliau a gwneud dewisiadau hyddysg

2. Gweithio gyda phartneriaid i nodi achosion gwahaniaethau mewn cyflog a chyflogaeth sy'n gysylltiedig â rhyw, ethnigrwydd ac anabledd

3. Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)

4. Lleihau nifer yr achosion o bob math o drais yn erbyn merched, cam-drin yn y cartref, trais er ‘anrhydedd’, troseddau casineb, bwlio a cham-drin pobl hŷn.

5. Mynd i’r afael â rhwystrau ac yn cefnogi pobl anabl er mwyn iddynt allu byw’n annibynnol a gwneud dewisiadau a rheoli eu bywydau bob dydd

6. Sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaethau wrth wraidd prosesau darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol, yn enwedig gwasanaethau iechyd, tai a gofal cymdeithasol, fel eu bod yn ymateb i anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig

7. Gwella gweithgarwch ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a sicrhau eu bod yn cymryd mwy o ran mewn penodiadau cyhoeddus

8. Creu gweithle mwy cynhwysol sy’n hyrwyddo cyfle cyfartal i staff â nodweddion gwarchodedig drwy wella gweithgarwch ymgysylltu â chyflogeion a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu sydd ar gael i bob aelod o staff.

Amcan 1:

Atgyfnerthu gwasanaethau cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth er mwyn helpu unigolion â nodweddion gwarchodedig ddeall ac arfer eu hawliau a gwneud dewisiadau hyddysg.

Rhesymeg:

Mae cael gafael ar wybodaeth, cyngor a gwasanaethau eiriolaeth yn allweddol i helpu unigolion i ddeall a defnyddio eu hawliau wrth herio gwahaniaethu ac wrth roi cyngor ariannol a chyngor ar ddyledion a darparu tai ac mewn llawer o feysydd eraill lle y gallai fod anghydraddoldeb. Mae gwasanaethau yn anghyson ar hyn o bryd ac nid ydynt wedi'u cydgysylltu'n dda.

Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Gweinidog Cyllid wedi gofyn i swyddogion gychwyn adolygiad llawn o wasanaethau cynghori. Daw hyn yn sgil heriau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen sy'n wynebu darparwyr di-elw o ganlyniad uniongyrchol i gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Diwygio Lles a Chymorth Cyfreithiol a'r effaith a gaiff gostyngiadau mewn arian ar gyfer cyngor drwy'r Gronfa Cynhwysiant Ariannol a'r Llinell Gymorth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Bydd yr adolygiad yn cwmpasu'r holl wasanaethau cynghori ym mhob un o bortffolios Llywodraeth Cymru.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
1.1 Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidog ar Ddiwygio Lles wedi comisiynu gwaith i ystyried sut y gallai Llywodraeth Cymru ddatblygu rhwydwaith cryfach o wasanaethau cynghori a all roi cymorth dwyieithog i unigolion ar bob agwedd ar anghenion ariannol ac anghenion tai er mwyn: • gwneud rhagor o waith i fapio gwasanaethau cynghori cyhoeddus a gwirfoddol • ystyried opsiynau ar gyfer sicrhau gwell cydgysylltu a gwell cydweithredu rhwng gwasanaethau cynghori yn genedlaethol ac yn lleol; • ystyried a oes ffyrdd y mae angen datblygu gwasanaethau cynghori, er enghraifft er mwyn cyrraedd unigolion sy'n cael yr anhawster mwyaf i gael gafael arnynt.	Yr Uned Mynd i'r Afael â Thlodi – Yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau	

Portffolios Gweinidogol â chyfrifoldeb uniongyrchol:

- Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
- Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
- Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Amserlenni:

- Caiff yr amcan hwn ei gyflawni'n llawn erbyn 2016. Caiff dangosyddion canlyniadau eu datblygu drwy Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) er mwyn mesur canlyniadau a dangosyddion.

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu

	• Bydd yr adolygiad yn ystyried sut y gellir datblygu gwasanaethau cynghori cyffredinol sy'n:
	  • gwella ansawdd gwasanaeth i'r defnyddiwr;
	  • gallu rhoi cymorth i unigolion o ran pob agwedd ar anghenion ariannol, anghenion tai ac anghenion cysylltiedig eraill;
	  • gallu helpu unigolion â nodweddion gwarchodedig i ddeall ac arfer eu hawliau a gwneud dewisiadau hyddysg;
	  • nodi effaith toriadau ariannol Llywodraeth y DU a llywodraeth leol;
	  • asesu'r galw am wasanaethau cynghori dros y pum mlynedd nesaf;
	  • nodi sut y gellir defnyddio arian yn y modd mwyaf effeithiol i gefnogi rhwydwaith cynghori yng Nghymru.
	Amserlenni cychwynnol:
	• Cylch gwaith, cylch gorchwyl a Grŵp Arbenigol yr adolygiad i'w cytuno erbyn mis Ebrill 2012
	• Adolygiad i'w gynnal rhwng mis Ebrill a Mis Medi 2012
	• Adolygiad i gyflwyno adroddiad a gwneud argymhellion erbyn mis Hydref 2012
		Caiff y trefniadau monitro ac adrodd eu goruchwylio gan Grŵp Arbenigol a sefydlir yn benodol at y diben hwn. Cytunir ar gerrig milltir allweddol a dangosyddion penodol fel rhan o hyn.
		Mae'r ymrwymiad i Gam Gweithredu 1.1-1.4 wedi'i gynnwys yng Nghynllun Strategol yr Is-adran Cymunedau 2012-15 lle mae trefniadau wedi'u nodi i fonitro'r gwaith o'u cyflawni.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
1.2 Sicrhau bod y rhwydweithiau cenedlaethol a lleol o wasanaethau gwybodaeth/cynghori ac eiriolaeth yn diwallu anghenion y grwpiau gwarchodedig yn llawn a bod amcanion cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori mewn datblygiadau yn y dyfodol.	Yr Uned Mynd i'r Afael â Thlodi – Yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau	
1.3 Ymarfer cwmpasu i nodi'r hyn a ddisgwylir gan awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill o ran mapio darpariaeth leol o safbwynt y defnyddiwr a sicrhau bod haen gyntaf integredig, ymatebol a hygyrch â phrosesau cyfeirio effeithiol at wasanaethau mwy arbenigol.	Yr Uned Mynd i'r Afael â Thlodi – Yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau	
1.4 Cysylltu'r Adolygiad â'r gwaith o ddatblygu polisi ar Llais Defnyddwyr, Cyngor ar Bopeth, ac ati	Yr Uned Mynd i'r Afael â Thlodi – Yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau	
1.5 Atgyfnerthu a chefnogi gwaith gyda mewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a chymunedau lleiafrifoedd ethnig i'w gwneud yn haws i unigolion gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth a gwasanaethau cynghori.	Yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant – yr Adran Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad a'r Uned Eiriolaeth – yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ar gylch gwaith yr adolygiad a sicrhau eu cyfranogiad drwy gais am dystiolaeth a thrwy Grŵp Arbenigol a fydd yn goruchwylio'r adolygiad. • Fel rhan o'r Adolygiad, ystyried sut y caiff anghenion grwpiau gwarchodedig eu diwallu a sut y caiff Amcanion Cydraddoldeb eu hymgorffori mewn datblygiadau yn y dyfodol. Penderfynir yn derfynol ar y cylch gwaith rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2012.	Caiff y trefniadau monitro ac adrodd eu goruchwylio gan Grŵp Arbenigol a sefydlir yn benodol at y diben hwn. Cytunir ar gerrig milltir allweddol a dangosyddion penodol fel rhan o hyn.
	• Ystyried rôl awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill o ran rhoi cyngor fel rhan o'r Adolygiad h.y. o ran y modd y maent yn ariannu gwasanaethau cynghori ac yn cyflawni rôl gydgysylltiol arweiniol er mwyn sicrhau bod digon o wasanaethau cynghori dwyieithog o safon ar gael.	Caiff y trefniadau monitro ac adrodd eu goruchwylio gan Grŵp Arbenigol a sefydlir yn benodol at y diben hwn. Cytunir ar gerrig milltir allweddol a dangosyddion penodol fel rhan o hyn.
	• Tra bydd yr Uned Mynd i'r Afael â Thlodi yn arwain y gwaith hwn, mae'n rhoi cyfle i gydgysylltu a chydlynu gweithgarwch ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. • Felly, bydd yr adolygiad yn cwmpasu'r holl wasanaethau cynghori ym mhob un o bortffolios Llywodraeth Cymru ac mae Adrannau yn chwarae rhan lawn yn yr adolygiad hwn a byddant yn parhau i wneud hynny.	Caiff y trefniadau monitro ac adrodd eu goruchwylio gan Grŵp Arbenigol a sefydlir yn benodol at y diben hwn. Cytunir ar gerrig milltir allweddol a dangosyddion penodol fel rhan o hyn.
	• Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda darparwyr gwasanaethau Eiriolaeth a sefydliadau yn y Trydydd Sector i nodi bylchau yn y ddarpariaeth a chodi safonau a fydd yn cysylltu â'r adolygiad Diwygio Lles erbyn mis Mawrth 2013. • Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth wedi'i thargedu yn ystod 2012/13 ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth MEIC i bobl o dan 25 oed mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig.	Gwaith monitro parhaus drwy gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar Gynnwys Ffoaduriaid a'r Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflawni ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Erbyn 2014.

Amcan 2:

Gweithio gyda phartneriaid i nodi achosion gwahaniaethau mewn cyflog a chyflogaeth sy'n gysylltiedig â rhyw, ethnigrwydd ac anabledd.

Rhesymeg:

Mae tystiolaeth gref bod y ffactorau sy'n llywio cyfleoedd bywyd unigolyn yn dechrau cael effaith hyd yn oed cyn y caiff plentyn ei eni, a'u bod ar waith yn rymus yn ystod plentyndod. Felly, mae camau gweithredu i fynd i'r afael â'r Amcan hwn yn dechrau yn ystod plentyndod ac yn canolbwyntio ar faterion allweddol drwy gydol oes yr unigolyn.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
2.1 Dechrau'n Deg – casglu a dadansoddi gwybodaeth am grwpiau gwarchodedig, yn enwedig unigolion o leiafrifoedd ethnig ac unigolion anabl, a sicrhau bod darpariaeth yn ddiwylliannol sensitif ac nad yw'n allgau grwpiau wedi'u hymylu yn anfwriadol.	Tîm Dechrau'n Deg – yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	

Portffolios Gweinidogol â chyfrifoldeb uniongyrchol:

- Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
- Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
- Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
- Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ

Amserlenni:

- Nod hirdymor yw hwn a gwneir cynnydd mesuradwy yn erbyn yr amcan hwn erbyn 2016. Caiff dangosyddion canlyniadau eu datblygu drwy Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) er mwyn mesur canlyniadau a dangosyddion.

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Mae tîm Dechrau'n Deg, gan weithio gyda Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a rhanddeiliaid allanol, wrthi'n adolygu gwybodaeth fonitro'r rhaglen. Mae'r adolygiad yn mynd rhagddo a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn ystod y chwech i wyth mis nesaf i roi systemau data newydd ar waith a fydd yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, gyflwyno adroddiadau ar y defnydd a wneir o elfennau o'r rhaglen gan rai o'r grwpiau 'anoddaf i'w cyrraedd' mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae'r rhain yn cynnwys: • Teuluoedd lleiafrifoedd ethnig; • Teuluoedd nad Cymraeg/Saesneg yw eu mamiaith; • Plant ag anghenion ychwanegol; • Rhieni benywaidd unigol; • Rhieni gwrywaidd unigol; • Rhieni yn eu harddegau; • Rhieni am y tro cyntaf. • Canllawiau diwygiedig Dechrau'n Deg i gynnwys gofyniad i seilio darpariaeth ar asesiad lleol o anghenion, a disgwylir i Awdurdodau Lleol nodi sut y byddant yn diwallu'r anghenion hynny wrth gyflawni rhaglen Dechrau'r Deg.	Mae'r adolygiad yn mynd rhagddo. Mae is-grŵp Monitro a Gwerthuso Dechrau'n Deg (sy'n cyfarfod bob pythefnos) yn cyflwyno adroddiadau i Fwrdd Rhaglen Dechrau'n Deg bob chwarter.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
2.2 Dadansoddi gwybodaeth a nodi materion lle mae angen ymyriadau i wella cyrhaeddiad ymhlith y grwpiau hynny â nodweddion gwarchodedig sy'n tangyflawni. Dylai hyn gynnwys materion sy'n ymwneud â phatrymau gwahardd o'r ysgol.	Y Gangen Lleiafrifoedd Ethnig/ Amddiffyn Plant – yr Adran Addysg a Sgiliau	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu

	• Monitro tueddiadau o ran cyrhaeddiad ac asesu effaith y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAG) a'r Grant Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Theithwyr (grant GT) drwy gasglu data ar y canlynol:
	  • Nifer y disgyblion o leiafrifoedd ethnig a gafodd gymorth ariannol drwy'r MEAG sy'n cyflawni Lefel 2 (5 TGAU A*-C) neu gymhwyster cyfatebol;
	  • Nifer y plant o leiafrifoedd ethnig a gafodd gymorth ariannol drwy'r MEAG sy'n cyflawni lefelau disgwyliedig o Ddangosyddion Pynciau Craidd yng nghyfnod allweddol 3;
	  • Nifer (a chanran) y disgyblion o deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr sy'n mynd i'r ysgol am o leiaf y 200 o sesiynau gofynnol;
	  • Nifer y plant o deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr a gafodd gymorth ariannol gan Grant GT sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster;
	  • Nifer y plant o deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr a gafodd gymorth ariannol gan Grant GT sy'n ennill cymhwyster ôl-16;
	• Comisiynu ymchwil i nodi pa dystiolaeth sydd ynghylch gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad, cynnydd a gwaharddiadau rhwng y gwahanol grwpiau ethnig a'r cysylltiad rhwng cyrhaeddiad a gwahardd disgyblion o'r ysgol – ar yr amod y caiff ei dderbyn i'w gynnwys yng Nghynllun Tystiolaeth yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS).
	• Annog Awdurdodau Lleol i weithio gydag ysgolion yn eu hardaloedd i nodi lle y gall defnyddio data yn ddeallus gyflawni ymyriadau wedi'u targedu.
	• Casglu enghreifftiau o arfer gorau o ran cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig, er enghraifft, o Islington a Tower Hamlets a'i drosi i'w ddefnyddio mewn awdurdodau lleol yng Nghymru.
		Yn cael ei adolygu bob blwyddyn erbyn Mawrth 2013.
		
		Mae'r gwaith o ddadansoddi cyrhaeddiad bron â'i gwblhau ac ystyrir dadansoddi tystiolaeth sydd ar gael ymhellach a llunnir cynllun gweithredu priodol erbyn Mawrth 2013.
		
		Bydd effaith annog awdurdodau lleol i gasglu a defnyddio data priodol yn unol â'r targed yn rhoi canlyniad cyfanredol treigl. Felly, rhagwelir na fydd data ystyrlon ar gael am y tair blynedd gyntaf ond gellir ei adolygu bob blwyddyn ar ôl hynny. Ceisir astudiaethau achos arfer gorau erbyn mis Hydref 2013.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
2.3 Os nodir problemau, llunio ymyriadau a fydd yn mynd i'r afael â'r problemau hyn a'u cyflwyno'n briodol i hyfforddiant athrawon, datblygiad proffesiynol parhaus, fframweithiau arolygu Estyn ac adroddiadau cylch gwaith.	Yr Adran Addysg a Sgiliau a'r Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant – yr Adran Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad	
2.4 Gwella canlyniadau plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) drwy ddiwygio'r fframwaith statudol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.	Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol – yr Adran Addysg a Sgiliau	
2.5 Teilwra darpariaeth Genesis mewn canolfannau trefol â phoblogaethau Mwslimaidd sylweddol er mwyn helpu merched o gefndiroedd Mwslimaidd i gael swydd.	Yr Is-adran Cyflogadwyedd a Sgiliau – yr Adran Addysg a Sgiliau	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Gydag arweinwyr polisi edrych ar y potensial i ystyried sut y gellir adlewyrchu unrhyw faterion penodol a nodwyd o ran rhyw, anabledd, hil, tangyflawni ac anghydraddoldeb yn y broses o ddatblygu polisi mewn perthynas â hyfforddiant athrawon a thrwy Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus a gwaith Estyn.	I'w adolygu'n flynyddol o fis Mai 2013.
	• Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid rhoi system symlach sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn yn lle'r fframwaith statudol presennol ar gyfer anghenion addysgol arbennig. Mae'r dull gweithredu newydd wrthi'n cael ei brofi mewn wyth awdurdod lleol. Y cyfrwng deddfwriaethol fydd y Bil Addysg (Cymru) y disgwylir iddo gael ei gyflwyno yn 2013 ac ymgynghorir ar y cynigion yng ngwanwyn/haf 2012. • O fewn fframwaith y Bil, gweithio i sicrhau gweithio amlasiantaeth rhwng Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg i ddiwallu anghenion wedi'u hasesu unigolion sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. • O fewn fframwaith y Bil, gweithio i wella prosesau cynllunio trefniadau pontio ar bob cam pontio perthnasol h.y. i mewn i addysg/ addysg gynradd i addysg uwchradd/addysg uwchradd i Addysg Bellach, Addysg Uwch a gwaith/bywyd.	Caiff y Bil arfaethedig ei weithredu yn 2013. Caiff cynnydd ei fonitro yn flynyddol.
	• Sicrhau bod gweithgarwch casglu data ar gyfer Rhaglenni Genesis yn casglu gwybodaeth am grwpiau gwarchodedig fel y bo'n briodol o fewn cwmpas cyffredinol y Rhaglenni hyn. • Sicrhau yr ymgorfforir data/tystiolaeth am y galw o du grwpiau gwarchodedig a chyfranogiad grwpiau gwarchodedig mewn gwerthusiadau o brosiectau/rhaglenni ar gyfer Genesis yn 2014/15, gan gynnwys nodi materion cydraddoldeb penodol sy'n codi ac unrhyw feysydd arfer gorau.	Monitro'r modd y cyflawnir Cynllun Genesis ar gyfer grwpiau gwarchodedig rhwng 2012 a 2014 yn seiliedig ar ddata a gesglir gan awdurdodau lleol a thrwy ymweliadau monitro rheolaidd. Adolygu Genesis bob blwyddyn rhwng 2012 a 2014 er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n gynrychioliadol ymhlith y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
2.6 Sicrhau y caiff tystiolaeth ei chynhyrchu a'i dadansoddi o ran unigolion o grwpiau gwarchodedig sy'n ymgymryd â Phrentisiaethau Modern, a chyfraddau llwyddo wrth eu gadael, a llunio camau gweithredu i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb sy'n codi.	Yr Is-adran Cyflogadwyedd a Sgiliau – yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS)	
2.7 Sicrhau y caiff tystiolaeth ei chynhyrchu a'i dadansoddi am grwpiau gwarchodedig o fewn cyrsiau sgiliau sylfaenol i oedolion a chyfraddau llwyddo. Defnyddio gwaith dadansoddi i lunio camau gweithredu i fynd i'r afael â materion sy'n codi e.e. rhwystrau a thangynrychiolaeth ymhlith y rhai â nodweddion gwarchodedig.	Yr Is-adran Cyflogadwyedd a Sgiliau, Yr Is-adran Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc – yr Adran Addysg a Sgiliau	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Bydd y gwaith o Adolygu Genesis yn cynnwys rhoi sylw penodol i'r potensial ar gyfer teilwra'r ddarpariaeth ymhellach mewn awdurdodau lleol perthnasol er mwyn helpu merched o gefndiroedd Mwslimaidd i gael swydd. • Gweithio gydag awdurdodau lleol, lle y bo'n briodol, i sicrhau y caiff y ddarpariaeth ei theilwra ar gyfer y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.	
	• Bydd yr AdAS yn gwerthuso'r modd y mae darparwyr yn monitro cyfranogiad a chanlyniadau grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn flynyddol. Bydd hyn yn cynnwys adolygiadau o'r adroddiadau hunanasesu a gyflwynir gan ddarparwyr; trafodaeth mewn cyfarfodydd adolygu contractau; a thrafodaeth yn rhwydwaith cenedlaethol Rheolwyr Ansawdd Dysgu Seiliedig ar Waith. Byddwn yn nodi ac yn lledaenu arfer gorau o ran defnyddio data i fonitro materion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac ystyried perfformiad darparwyr yn hyn o beth wrth ail-ddyfarnu contractau. • Monitro data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru er mwyn olrhain cyfraddau cyfranogi a llwyddo cyffredinol ym mhob rhaglen seiliedig ar waith, yn ôl rhyw, ethnigrwydd ac anabledd. • Ystyried sut i ymestyn y dull gweithredu hwn i gynnwys grwpiau gwarchodedig eraill. • Sicrhau yr ymgorfforir data/tystiolaeth am y galw o du grwpiau gwarchodedig a chyfranogiad grwpiau gwarchodedig mewn gwerthusiadau o brosiectau/rhaglenni ar gyfer Prentisiaethau yn 2014/15, gan gynnwys nodi materion cydraddoldeb penodol sy'n codi ac unrhyw feysydd arfer gorau.	Monitro ac adolygu'r modd y darperir Prentisiaethau o 2013 o ran rhyw, ethnigrwydd ac anabledd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu'r galw a mynd i'r afael ag unrhyw faterion cydraddoldeb penodol sy'n codi.
	• Sicrhau bod gweithgarwch casglu data ar y modd y cyflawnir Rhaglenni Sgiliau Sylfaenol a Rhaglenni i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn casglu gwybodaeth am grwpiau gwarchodedig fel y bo'n briodol o fewn cwmpas cyffredinol y Rhaglenni hyn.	Monitro ac adolygu'r modd y darperir Prentisiaethau o 2013 o ran rhyw, ethnigrwydd ac anabledd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu'r galw a mynd i'r afael ag unrhyw faterion cydraddoldeb penodol sy'n codi.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
2.8 Adolygu'r Rhaglenni Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) a rhaglenni sgiliau sylfaenol i oedolion a ddarperir er mwyn gwella eu rhagolygon o ran addysg, sgiliau a chyflogaeth.	Y Gangen Polisi Addysg Uwch – yr Adran Addysg a Sgiliau	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Sicrhau y caiff materion sy'n ymwneud â grwpiau gwarchodedig eu hystyried fel rhan o'r gwaith o adolygu pobl ifanc sy'n destun gweithgarwch NEET yn 2012 ac y caiff camau gweithredu i fynd i'r afael â gorgynrychiolaeth grwpiau gwarchodedig ymhlith pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant eu hymgorffori mewn argymhellion polisi cychwynnol erbyn mis Mehefin 2012. • Sicrhau yr ymgorfforir data/tystiolaeth am y galw o du grwpiau gwarchodedig a chyfranogiad grwpiau gwarchodedig mewn gwerthusiadau o brosiectau/rhaglenni ar gyfer Rhaglenni Sgiliau Sylfaenol yn 2014/15, gan gynnwys nodi materion cydraddoldeb penodol sy'n codi ac unrhyw feysydd arfer gorau.	

	• Gweithredu Cynllun Gweithredu ESOL i Gymru a:
	  • sefydlu grŵp trawsadrannol er mwyn cydgysylltu ESOL a gweithio gyda darparwyr i sicrhau y caiff anghenion eu diwallu;
	  • atgyfnerthu cysylltiadau rhwng yr agenda ESOL a'r agenda sgiliau sylfaenol ôl-16 er mwyn sicrhau y caiff cysylltiadau polisi eu creu.
	• Adolygu Cynllun Gweithredu ESOL er mwyn profi perthnasedd a chyfredolrwydd camau gweithredu a geir yn y Cynllun Gweithredu cyfredol sy'n canolbwyntio ar y canlynol:
	  • sicrhau bod dysgu sydd ar gael yn fwy perthnasol er mwyn diwallu anghenion iaith Saesneg dysgwyr;
	  • Asesu'r cyflenwad yn erbyn y galw;
	  • Mynd i'r afael â phrinder tiwtoriaid ESOL cymwys ar frys.
		Grŵp Cynghori ESOL i adolygu a monitro'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun gweithredu. Mae'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
2.9 Casglu a dadansoddi gwybodaeth am effaith rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar gydraddoldeb a nodi unrhyw ymyriadau priodol.	Uned Cymunedau yn Gyntaf – Yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau	
2.10 Adolygu'r angen nas diwallwyd am ofal plant fforddiadwy a nodi opsiynau ar gyfer sicrhau ei bod yn haws cael gafael arno, gan gynnwys argaeledd gofal plant mewn amrywiaeth o ieithoedd, gan gynnwys y Gymraeg.	Polisi Gofal Plant a Chwarae – yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	
2.11 Ystyried y potensial i ddarpariaeth mentrau cymdeithasol a "gofal cofleidiol" gyfrannu at y gwaith o ddarparu gofal plant fforddiadwy o safon uchel, gan gynnwys gofal plant mewn amrywiaeth o ieithoedd, gan gynnwys Cymraeg, gan adeiladu ar raglenni megis Genesis a Dechrau'n Deg.	Polisi Gofal Plant a Chwarae – yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant a Phennaeth Uned Mentrau Cymdeithasol – yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Adeiladu ar ganlyniadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd fel rhan o'r broses ymgynghori ar Cymunedau yn Gyntaf – Y Dyfodol. • Ailddatblygu Cronfa Ymddiriedaeth Cymunedau yn Gyntaf er mwyn cefnogi nodau cyffredinol rhaglen newydd Cymunedau yn Gyntaf ac mae opsiynau wrthi'n cael eu datblygu i fwrw ymlaen â'r gwaith hwnnw yn ystod 2012/13. • Yn benodol ystyried y ffordd orau o ddiwallu anghenion grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig er mwyn sicrhau mynediad cyfartal. • Cynnwys mewn unrhyw gontract gweinyddol ar gyfer y gronfa grantiau bach waith coladu a dadansoddi o ran sut y caiff yr arian ei ddefnyddio. • Sicrhau bod pob elfen o Gynllun Cyflawni pob Clwstwr yn dangos sut y caiff pobl leol eu cynnwys yn y broses o'i gyflawni ac, yn benodol, sut y caiff grwpiau lleiafrifol a'r rhai sy'n agored i dlodi yn y gymuned eu cynrychioli a'u cynnwys ar bob lefel o'r rhaglen.	Bydd gan bob Clwstwr Gynllun Cyflawni y cytunwyd arno er mwyn cydymffurfio â'r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf, ynghyd â dangosyddion perfformiad clir ar gyfer gweithgareddau Cymunedau yn Gyntaf lleol. Caiff data ar berfformiad o ran pob Clwstwr ei gasglu o leiaf unwaith y flwyddyn ac yn y rhan fwyaf o achosion yn chwarterol. Caiff Cynlluniau Cynnwys y Gymuned ar gyfer pob Clwstwr eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn. Caiff gwaith monitro data chwarterol ei ategu gan adroddiadau monitro blynyddol ac ymweliadau â phob Clwstwr.
	• Dadansoddi Asesiadau awdurdodau lleol o Ddigonolrwydd Gofal Plant ar gyfer 2011 a 2012 erbyn mis Gorffennaf 2012. • Rhoi cardiau adrodd i awdurdodau lleol ar gyfer eu Hasesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant ar gyfer 2012 erbyn mis Medi 2012 er mwyn llywio eu hasesiadau ar gyfer 2013. • Nodi themâu cenedlaethol o'r gwaith dadansoddi hwn i gynnwys, os bydd angen, anghenion lleiafrifoedd ethnig, cymunedau teithwyr, y lluoedd arfog, siaradwyr Cymraeg a phlant anabl o ran gofal plant. Asesu'r themâu hyn yn erbyn y Datganiad Polisi ar Ofal Plant a llunio Cynllun Gweithredu manwl i'w weithredu o fis Medi 2012 – 2015.	Asesiadau blynyddol parhaus o Ddigonolrwydd Gofal Plant a chynlluniau gweithredu gan awdurdodau lleol. Cardiau adrodd blynyddol gan Bolisi Gofal Plant a Chwarae i awdurdodau lleol. Adolygu Asesiadau awdurdodau lleol o Ddigonolrwydd Gofal Plant a chynlluniau gofal plant cenedlaethol dilynol.
	• Rhoi grant y Tu Allan i Oriau Ysgol i awdurdodau lleol ddarparu gofal plant 'cofleidiol' lle y nodwyd yr angen mewn Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant erbyn diwedd mis Mawrth ar gyfer 2012-13; 2013-14; 2014-15.	Asesu gwariant a chynlluniau gweithredu awdurdodau lleol; asesu'r rhain yn erbyn amodau'r grant; adolygu gwariant yn chwarterol.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
2.12 Parhau i wella cyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc chwarae'n ddiogel ac yn benodol helpu i wella cyfleoedd chwarae i blant anabl a phlant sy'n siarad Cymraeg ac ieithoedd lleiafrifol eraill.	Polisi Gofal Plant a Chwarae – yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	
2.13 Adolygu sectorau i nodi meysydd lle y gall fod potensial penodol i symud merched i swyddi â chyflogau uwch a gweithio gyda chwmnïau angori priodol ar rannu arfer effeithiol.	Cyflawni – yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Adolygu gweithgarwch 2011-12 gan awdurdodau lleol a'u blaengynlluniau gwariant ar gyfer 2012-13 erbyn diwedd Ebrill a rhoi dyraniad cyllidebol cadarn ar gyfer 2012-13 erbyn diwedd mis Mai 2012. • Asesu gwariant yn chwarterol yn erbyn y cynllun a dyfarnu taliad grant. • Ymchwilio i opsiynau ar gyfer gofal plant Mentrau Cymdeithasol a gofal plant Cydweithredol erbyn mis Medi 2012 a llunio cynllun gweithredu i'w weithredu yn ystod ail ran 2012-13 ymlaen. • Yn amodol ar gyngor cyfreithiol, treialu prosiect ar gyfer Cwmnïau Cymdeithasol Cymru i ddechrau yn 2012/13. Bydd y prosiect yn ceisio treialu dau fodel o gwmnïau cymdeithasol, y naill yn gweithio ar ofal plant a'r llall yn gweithio ar ofal cymdeithasol i gynnwys merched sydd am ddychwelyd i'r gwaith ond sydd â chyfrifoldebau gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill a chreu modelau busnes priodol i'w cynorthwyo. I'w gwblhau erbyn diwedd 2014/15.	Adolygiad ac adroddiad cyffredinol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol gan swyddogion Polisi. Yn y cam datblygiadol, gwaith monitro ac adolygu i'w ystyried. Cynhelir cyfarfodydd monitro chwarterol ar gyfer prosiect Cwmnïau Cymdeithasol Cymru. At hynny, rhagwelir y caiff gwerthusiad annibynnol ei gwblhau ar gyfer y prosiect peilot yn ystod 2014/15.
	• Gweithredu'r Ddyletswydd o ran Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae mewn dwy ran. Mae'n debyg y dechreuir ar Ran 1 ym mis Tachwedd 2012 a bydd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. • Dadansoddi'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae o fis Ebrill 2013. • Ceisio ffynonellau arian i helpu i ddarparu digon o gyfleoedd chwarae erbyn mis Rhagfyr 2013. • Cychwyn ar Ran 2 o'r ddyletswydd i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu digon o gyfleoedd chwarae, dyddiad dros dro 31 Mawrth 2014.	Adolygu'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae o fis Ebrill 2013. Caiff gwaith monitro ac adolygu pellach ar gyfer Rhan 2 o'r Ddyletswydd ei ystyried a'i gyhoeddi maes o law.
	• Bydd Penaethiaid Sectorau yn ymgynghori â'r panel a chadeiryddion ar y dull gorau o weithredu, blaenoriaethau a chamau gweithredu i'w cytuno.	Caiff Cynllun Gweithredu'r Sectorau a blaenoriaethau sectorau eu monitro a'u hadolygu'n flynyddol. Caiff ymrwymiadau o ran cydraddoldeb eu hadolygu fel rhan o'r broses hon. Cynhelir yr adolygiad cyntaf ym mis Mawrth 2013.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
2.14 Ystyried y potensial i entrepreneuriaeth a mentrau dechrau busnes annog mwy o ferched, unigolion o leiafrifoedd ethnig a phobl anabl i fanteisio ar y mentrau hyn.	Entrepreneuriaeth a Gweithrediadau Sectorau – yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Gwneud y gwaith hwn ar y cyd â'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n gysylltiedig â chynllun gweithredu a chyflawni gwreiddiol y Sectorau a Busnes a gwblheir erbyn diwedd mis Mai 2012. I'w gynnwys yn agenda ehangach y Paneli Sector a'i gefnogi gan yr Uned Cymorth Cydraddoldeb i'w gwblhau erbyn 31ain Mawrth 2013.	
	• Ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr feddu ar ddyfarniad cydraddoldeb a achredwyd gan gorff allanol neu fod yn gweithio tuag at y fath ddyfarniad er mwyn cadarnhau eu hymrwymiad i'r agenda cydraddoldeb. • Darparu cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ar gyfer y grwpiau â nodweddion gwarchodedig a nodwyd er mwyn hyrwyddo dechrau busnes i gynulleidfaoedd wedi'u targedu. Dylai fod yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddemograffeg rhannau o Gymru gan eu cymharu â demograffeg unigolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau dechrau busnes. Lle y ceir gwahaniaeth mawr caiff cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu eu comisiynu. Caffael digwyddiadau ymgysylltu o fis Ebrill a'u cynnal yn ystod 2012-13. • Rhoi cyngor a chanllawiau i ddarparwyr rhaglenni dechrau busnes ar y materion sy'n gysylltiedig â gweithio gyda gwahanol grwpiau demograffig, yn enwedig merched, pobl anabl a lleiafrifoedd ethnig, erbyn 2012-13. • Cymerir camau i hyrwyddo dechrau busnes fel opsiwn cadarnhaol i grwpiau demograffig drwy ddigwyddiadau ymgysylltu a gynhelir yn lleol, erbyn 2012-13. • Cynyddu adnoddau a meithrin gallu darparwyr i nodi a diwallu anghenion gwahanol grwpiau demograffig, erbyn 2012-13. • Mae Gwybodaeth Menter a Busnes wrthi'n cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o ran y modd y caiff gweithgareddau Adfywio Economaidd eu darparu a'u cyflawni ar gyfer ei faes cyfrifoldeb a gwblheir erbyn mis Mai 2012 ac a fydd yn nodi camau gweithredu wrth fynd ymlaen i gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol.	Monitro nifer y digwyddiadau ymgysylltu a gynhelir, presenoldeb a chanlyniadau yn ôl grŵp demograffig ac adolygu'r data bob chwe mis a chyflwyno adroddiad blynyddol. Bydd hyn yn cychwyn ym mis Mawrth 2013. Monitro'r defnydd a wneir o wasanaethau dechrau busnes yn ôl grŵp demograffig a chyflwyno adroddiad bob chwarter yn unol â systemau adrodd safonol. Cyflwynir yr adroddiad cyntaf ym mis Mehefin 2012. Monitro nifer y darparwyr sy'n cael dyfarniadau cydraddoldeb a achredwyd gan gorff allanol a chyflwyno adroddiad ar hyn bob chwarter. Cyflwynir yr adroddiad cyntaf ym mis Mehefin 2012.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
2.15 Rhannu'r Nodyn Cyfarwyddyd ar Gynllunio Cynhwysol a ddarparwyd ar gyfer gwariant cyfalaf rhwng adrannau a rhannu arfer effeithiol.	Marchnad a Pholisi – yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	
2.16 Ystyried gyda phartneriaid (gan gynnwys cynghorwyr gyrfaoedd, cyflogwyr a gweithwyr ieuenctid) batrymau o ran pynciau a ddewisir gan y ddau ryw yn yr ysgol ac mewn Addysg Uwch ac Addysg Bellach, yn enwedig cynrychiolaeth annigonol ymhlith merched ar gyrsiau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM).	Cangen Cefnogi'r Cwricwlwm – Yr Adran Addysg a Sgiliau Tîm Sectorau a Busnes yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Sicrhau y caiff egwyddorion cynllunio cynhwysol, fel y'u nodir yn y Nodyn ar Gynllunio Cynhwysol, eu hystyried lle mae ein camau gweithredu yn cynnwys datblygu adeiladau yn uniongyrchol i fusnesau neu lle y cynigir grant i drydydd partïon adeiladu ac adnewyddu adeiladau ar gyfer busnesau. • Rhannu arfer gorau sy'n deillio o weithredu canllawiau ar gynllunio cynhwysol, â phartneriaid a rhanddeiliaid gan gychwyn cyn mis Medi 2012.	Monitro'r defnydd a wneir o'r Nodyn a'i effaith a'i ddiwygio fel y bo'n briodol.

	• Mae gwaith yn cynnwys ymgymryd ag addysg, dan arweiniad Cangen y Cwricwlwm yn yr Adran Addysg a Sgiliau, a hyrwyddo astudiaeth a gyrfaoedd ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg, gan gynnwys mynd i'r afael â chynrychiolaeth annigonol merched, drwy'r Academi Gwyddoniaeth Cenedlaethol (NAS).
	• Annog mwy o bobl i ymgymryd â chyrsiau STEM yn enwedig merched a hyrwyddo cynnydd yn nifer y merched sy'n dilyn gyrfaoedd mewn gwyddoniaeth a thrwy brosiect 'Get on with Science' a arweinir gan ContinYou Cymru a Chwarae Teg a gefnogir gan Lywodraeth Cymru.
	• Canolbwyntir ar wella'r dull o gyflwyno gwyddoniaeth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn adlewyrchu anghenion merched yn well. Bydd y prosiect hefyd yn ystyried y rôl y mae diwydiant yn ei chwarae o ran ymgysylltu â gweithlu benywaidd – gan geisio dylanwadu ar welliannau i bolisïau ac arferion gwaith y sector a'u hyrwyddo. Mis Ionawr 2012 tan fis Mawrth 2013 (bydd yn destun adolygiad).
	  • Sefydlir grŵp cynghori – erbyn mis Mawrth 2012;
	  • Nodir llinell sylfaen a chyflwynir adroddiad ar y ddarpariaeth, yr adnoddau a'r cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i ysgolion – erbyn mis Mawrth 2012;
	  • Caiff diwrnodau gweithgareddau eu datblygu a'u darparu i blant a theuluoedd er mwyn hwyluso gwaith ymchwil i agweddau tuag at wyddoniaeth a dyheadau – erbyn mis Mawrth 2012;
		Adroddiad gwerthuso interim, sy'n seiliedig ar Gam Un o'r cynllun peilot (Ion – Mawrth 2012), i'w gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2012. Disgwylir adroddiad gwerthuso llawn ym mis Rhagfyr 2012 i lywio'r broses o ystyried datblygu/cyflwyno'r rhaglen waith ymhellach i'r tair ardal consortiwm addysg yn 2013-14.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Nodi wyth clwstwr o ysgolion yng Ngogledd Cymru (sy'n cynnwys tua 32 o ysgolion) ac ymgysylltu â hwy – erbyn mis Mawrth 2013; • Caiff 'Hyrwyddwyr Gwyddoniaeth' eu recriwtio a'u sefydlu – erbyn mis Mawrth 2013; • Caiff rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus i ymarferwyr ei datblygu a'i darparu – erbyn mis Mawrth 2013; • Sefydlir pedair partneriaeth â diwydiant lleol a'r Cyngor Sgiliau Sector – erbyn mis Mawrth 2013; • Caiff gwaith ac ymchwil i gamau gweithredu gan Gymunedau Dysgu Proffesiynol eu datblygu a'u hwyluso – erbyn mis Mawrth 2013. • Gwerthuso'r dulliau asesu a ddefnyddir o ran arholiadau TGAU yng Nghymru yn y dyfodol fel rhan o'r Adolygiad o Gymwysterau 14-19, a lansiwyd gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau ym mis Medi 2011. Wrth ddod i benderfyniadau, ystyrir unrhyw dystiolaeth o'r gogwydd rhywiol posibl mewn dulliau asesu. • Parhau i weithio gyda'r sector Addysg Uwch a'r sector Addysg Bellach er mwyn sicrhau y parheir i ganolbwyntio ar sicrhau na fydd ymyriadau'r llywodraeth yn arwain at ogwydd rhywiol. • Sefydlir yr Academi Gwyddoniaeth Cenedlaethol (o fewn yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth) i helpu i hyrwyddo a chyfleu gweithgarwch allgymorth ac ymgysylltu sy'n ymwneud â STEM a'i gydgysylltu'n well ledled Cymru. • Cwblhau ymarfer mapio i Gymru gyfan ar weithgarwch allgymorth presennol sy'n ymwneud â STEM – erbyn mis Mai 2012; • Nodi unrhyw grwpiau gwarchodedig neu fylchau yn y ddarpariaeth; • Derbyn gwahoddiad ar gyfer gweithgareddau sy'n cael cymorth grant lle y gellir blaenoriaethu grwpiau gwarchodedig – Medi 2012.	Dylid cyflwyno adroddiad ar yr adolygiad erbyn mis Ionawr 2013. Adolygu'r cynnydd a wnaed erbyn mis Mai 2013 ac yn flynyddol ar ôl hynny. Monitro drwy arfarniad cylch grantiau'r Academi Gwyddoniaeth Cenedlaethol a thrwy gyfarfodydd cynnydd rheolaidd â chanolfannau'r Academi Gwyddoniaeth Cenedlaethol.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
2.17 Sicrhau bod y cylch nesaf o Raglenni Ewropeaidd yn ymgorffori cydraddoldeb ymhellach a bod cyllid yn cyfrannu at gau'r bwlch mewn sgiliau a chyflogaeth ar gyfer y rhai â nodweddion gwarchodedig, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes o dan y trefniadau ariannu presennol.	Yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Sicrhau bod Fforwm Partneriaeth y Rhaglenni Ewropeaidd (sef y corff sy'n datblygu rhaglenni 2014, gan gynnwys cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru) yn deall yr angen i ymgorffori'r amcanion cydraddoldeb yn y gwaith o ddatblygu rhaglenni erbyn mis Mehefin 2012. • Cynnwys arbenigedd ym maes cydraddoldeb mewn ffrydiau gwaith arbenigol a sefydlwyd i helpu i ddatblygu manylion technegol a gweithredol y rhaglenni hyd fis Mawrth 2012 ymlaen. • Cynnwys amcanion, targedau a gweithgarwch sy'n cyfrannu at leihau'r bwlch mewn sgiliau a chyflogaeth ar gyfer y rhai â nodweddion gwarchodedig mewn dogfennau rhaglennu manwl yn y dyfodol. O fis Mai 2012 ymlaen. • Diweddaru manylion cyswllt sefydliadau sy'n gweithio gydag unigolion â nodweddion gwarchodedig, er mwyn sicrhau bod gweithgarwch ymgynghori â'r cyhoedd ar ddogfennau rhaglennu yn y dyfodol yn gwbl gynhwysol. Mawrth 2012. • Rhoi cymorth a chanllawiau i randdeiliaid sy'n darparu sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth i'r rhai â nodweddion gwarchodedig er mwyn eu galluogi i fanteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o Raglenni Cyllid Ewropeaidd 2014. O 2013 ymlaen. • Datblygu canllawiau i noddwyr a staff sy'n ei gwneud yn bosibl i integreiddio cydraddoldeb ym mhob agwedd ar raglenni 2014. Mai 2013. • Cynllunio fframwaith monitro sy'n cynnwys data ar amrywiaeth er mwyn dadansoddi prosesau integreiddio cydraddoldeb (ac ymgorffori gwelliannau) yn ystod cyfnod rhaglennu 2014 -2020. Mai 2013. • Datblygu Fframwaith Asesu a Monitro Cydraddoldeb ar gyfer staff WEFO ar geisiadau am brosiectau. Mai 2013.	Gwerthuso'r modd y gweithredir Thema Drawsbynciol Cydraddoldeb fel elfen o raglenni 2007-2013 ac adeiladu ar y canfyddiadau wrth ddatblygu rhaglenni 2014. Rhag 2012. Cynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2014. Fe'i cwblheir ym mis Mawrth 2013.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
2.18 Defnyddio prosesau caffael cyhoeddus i hyrwyddo gwell arferion cyflogaeth a chydraddoldeb a chynhwysiant.	Gwerth Cymru – yr Adran Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad	
2.19 Sicrhau bod yr amcanion Mynd i'r Afael â Thlodi sydd i'w cyflawni a'r Cynllun Gweithredu i Fynd i'r Afael â Thlodi yn cyd-fynd â'r amcanion cydraddoldeb.	Yr Uned Mynd i'r Afael â Thlodi – Yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau ac Is-adran Cyflogadwyedd yr AdAS	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Adeiladu ar Asesiad Risg Cynaliadwyedd (SRA) sy'n cynnwys manteision o ran cydraddoldeb a manteision cymunedol a fydd yn cynnwys darpariaethau cydraddoldeb perthnasol mewn tendrau priodol (a darpariaethau ar gyfer yr iaith Gymraeg), ymgorffori cydraddoldeb mewn gweithgarwch rheoli contractau er mwyn sicrhau bod manteision o ran cydraddoldeb a manteision cymunedol yn cael eu hymgorffori mewn adroddiadau gan gontractwyr ac yn yr hyn a ddisgwylir ganddynt a datblygu'r gronfa ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID) sy'n cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â chydraddoldeb. • Gan ddechrau ym mis Medi 2012 llunio adroddiad chwarterol ar dendrau ac amodau contract Llywodraeth Cymru lle y nodwyd materion cydraddoldeb ac yr ymdriniwyd â hwy, gan ddefnyddio dulliau SRA a SQUiD. • Sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio cymalau manteision cymunedol ym mhob contract priodol gwerth dros £2m ac annog y sector cyhoeddus ehangach i weithredu. Coladu canlyniadau i Gymru gyfan gan ddefnyddio'r Dull Mesur a chyflwyno adroddiad ar ganlyniadau bob chwarter (Cyflwynir adroddiad ar y canlyniadau cyntaf ym mis Chwefror 2012). • Gweithio gyda'r Adran Addysg a Sgiliau a phartneriaid i egluro ac atgyfnerthu'r cymorth sydd ar gael gan asiantaethau i helpu contractwyr i recriwtio pobl ifanc heb addysg na chyflogaeth (Ebrill – Gorffennaf 2012). • Ystyried a yw Cyfarwyddebau newydd yr UE (y disgwylir iddynt ddod i rym ar ddiwedd 2013) yn rhoi cyfleoedd i atgyfnerthu'r dull manteision cymunedol (asesiad cychwynnol hydref 2012).	Mae ymrwymiadau yn rhan o gynllun gweithredol Gwerth Cymru a gaiff ei fonitro'n fisol yn erbyn cerrig milltir chwarterol.

	• Croesgyfeirio gwaith yn y Cynllun Gweithredu i Fynd i'r Afael â Thlodi ag amcanion cydraddoldeb gan gynnwys mewn perthynas â'r canlynol:
	  • Gofal plant fforddiadwy o safon;
	  • Camau gweithredu cynnar sydd wedi'u targedu i atal pobl ifanc rhag gadael addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth;
	  • Cyngor ar ddyledion.
		Y Cynllun Gweithredu i Fynd i'r Afael â Thlodi pan gaiff ei lansio

Amcan 3:

Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Rhesymeg:

Mae tystiolaeth gref bod cyfnod hir o ddiweithdra pan fydd unigolyn yn oedolyn ifanc yn amharu ar ei ragolygon gyrfa am oes. Mae'r sefyllfa economaidd sydd ohoni yn atgyfnerthu'r angen i ymdrin â hyn fel mater o flaenoriaeth o ran cydraddoldeb, ar sail oedran. Mae plant i rieni nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn fwy tebygol eu hunain o fod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. At hynny, mae cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn uwch ymhlith rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ac ymhlith pobl anabl.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
3.1 Camau gweithredu yn sgil yr adolygiad presennol o'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a gomisiynwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau; gan gynnwys camau gweithredu wedi'u teilwra i fynd i'r afael â gorgynrychiolaeth grwpiau ethnig penodol, y rhai sy'n gadael gofal a phobl anabl ymhlith y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.	Yr Is-adran Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc – yr Adran Addysg a Sgiliau	

Portffolios Gweinidogol â chyfrifoldeb uniongyrchol:

- Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
- Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
- Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
- Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol

Amserlenni:

- Nod hirdymor yw hwn a gwneir cynnydd mesuradwy yn erbyn yr amcan hwn erbyn 2016. Caiff dangosyddion canlyniadau eu datblygu drwy Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) er mwyn mesur canlyniadau a dangosyddion.

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Sicrhau bod gweithgarwch casglu data ar gyfer Rhaglenni NEET yn casglu gwybodaeth am grwpiau gwarchodedig fel y bo'n briodol o fewn cwmpas cyffredinol y Rhaglenni hyn. • Sicrhau y caiff materion sy'n ymwneud â grwpiau gwarchodedig eu hystyried fel rhan o'r gwaith o adolygu pobl ifanc sy'n destun gweithgarwch NEET yn 2012 ac y caiff camau gweithredu i fynd i'r afael â gorgynrychiolaeth grwpiau gwarchodedig ymhlith pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant eu hymgorffori mewn argymhellion polisi cychwynnol erbyn mis Mehefin 2012. • Sicrhau yr ymgorfforir data/tystiolaeth am y galw o du grwpiau gwarchodedig a chyfranogiad grwpiau gwarchodedig mewn gwerthusiadau o brosiectau/rhaglenni ar gyfer y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 2014/15, gan gynnwys nodi materion cydraddoldeb penodol sy'n codi ac unrhyw feysydd arfer gorau.	Monitro ac adolygu'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant o 2012 ar gyfer grwpiau gwarchodedig er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu'r galw a mynd i'r afael ag unrhyw faterion cydraddoldeb penodol sy'n codi.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
3.2 Gwella canlyniadau plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) drwy ddiwygio'r fframwaith statudol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.	Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol – yr Adran Addysg a Sgiliau	
3.3. Camau gweithredu yn sgil yr adolygiad presennol o sgiliau sylfaenol oedolion.	Yr Is-adran Cyflogadwyedd a Sgiliau – yr Adran Addysg a Sgiliau	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid rhoi system symlach sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn yn lle'r fframwaith statudol presennol ar gyfer anghenion addysgol arbennig. Mae'r dull gweithredu newydd wrthi'n cael ei brofi mewn wyth awdurdod lleol. Y cyfrwng deddfwriaethol fydd y Bil Addysg (Cymru) y disgwylir iddo gael ei gyflwyno yn 2013 ac ymgynghorir ar y cynigion yng ngwanwyn/haf 2012. • O fewn fframwaith y Bil, gweithio i sicrhau gweithio amlasiantaeth rhwng Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg i ddiwallu anghenion wedi'u hasesu unigolion sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth, gan gynnwys y rhai y mae angen cymorth arnynt drwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd lleiafrifol eraill. • O fewn fframwaith y Bil, gweithio i wella prosesau cynllunio trefniadau pontio ym mhob cam pontio perthnasol h.y. i mewn i addysg/addysg gynradd i addysg uwchradd/ addysg uwchradd i Addysg Bellach, Addysg Uwch a gwaith/bywyd. Gwneir y gwaith hwn ar y cyd ag ymdrechion yr AdAS i annog dilyniant o ran addysg cyfrwng Cymraeg.	Caiff y Bil arfaethedig ei weithredu yn 2013-12. Caiff cynnydd ei fonitro yn flynyddol.
	• Sicrhau y caiff data ar grwpiau gwarchodedig ei gasglu a'i ddadansoddi fel rhan o ymchwil a gomisiynir i lywio'r broses o adolygu Sgiliau Sylfaenol ôl-16 a pholisi a gweithgarwch cyflawni yn 2012/13, ac ymgorffori camau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw achosion a nodwyd o orgynrychioli grwpiau gwarchodedig ymhlith y rhai ag anghenion sgiliau sylfaenol mewn argymhellion polisi erbyn mis Mawrth 2013.	Monitro ac adolygu effaith newidiadau mewn polisi a roddir ar waith yn 2013 o ganlyniad i'r adolygiad o Sgiliau Sylfaenol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i adlewyrchu'r galw a mynd i'r afael ag unrhyw faterion cydraddoldeb penodol sy'n codi.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
3.4 Adolygu'r Rhaglenni Saesneg i Siaradwyr leithoedd Eraill (ESOL) a rhaglenni sgiliau sylfaenol i oedolion a ddarperir er mwyn gwella eu rhagolygon o ran addysg a chyflogaeth.	Cangen Polisi Addysg Bellach – Yr Adran Addysg a Sgiliau	
3.5 Sicrhau bod y cylch nesaf o Raglenni Ewropeaidd yn ymgorffori cydraddoldeb ymhellach a bod cyllid yn cyfrannu at gau'r bwlch mewn sgiliau a chyflogaeth ar gyfer y rhai â nodweddion gwarchodedig, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes o dan y trefniadau ariannu presennol.	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) – yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu

	• Gweithredu Cynllun Gweithredu ESOL i Gymru a:
	  • sefydlu grŵp trawsadrannol er mwyn cydgysylltu ESOL a gweithio gyda darparwyr i sicrhau y caiff anghenion eu diwallu;
	  • Atgyfnerthu cysylltiadau rhwng yr agenda ESOL a'r agenda sgiliau sylfaenol ôl-16 er mwyn sicrhau y caiff cysylltiadau polisi eu creu.
	• Adolygu Cynllun gweithredu ESOL er mwyn profi perthnasedd a chyfredolrwydd camau gweithredu a geir yn y Cynllun Gweithredu cyfredol sy'n canolbwyntio ar y canlynol:
	  • sicrhau bod dysgu sydd ar gael yn fwy perthnasol er mwyn diwallu anghenion iaith Saesneg dysgwyr;
	  • Asesu'r cyflenwad yn erbyn y galw;
	  • Mynd i'r afael â phrinder tiwtoriaid ESOL cymwys ar frys.
		Grŵp Cynghori ESOL i adolygu a monitro'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun gweithredu. Mae'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

	• Sicrhau bod Fforwm Partneriaeth y Rhaglenni Ewropeaidd (sef y corff sy'n datblygu rhaglenni 2014, gan gynnwys cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru) yn deall yr angen i ymgorffori'r amcanion cydraddoldeb yn y gwaith o ddatblygu rhaglenni erbyn mis Mehefin 2012. • Cynnwys arbenigedd ym maes cydraddoldeb mewn ffrydiau gwaith arbenigol a sefydlwyd i helpu i ddatblygu manylion technegol a gweithredol y rhaglenni o fis Mawrth 2012 ymlaen. • Cynnwys amcanion, targedau a gweithgarwch sy'n cyfrannu at leihau'r bwlch mewn sgiliau a chyflogaeth ar gyfer y rhai â nodweddion gwarchodedig, yn enwedig pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, mewn dogfennau rhaglennu manwl yn y dyfodol o fis Mai 2012 ymlaen. • Diweddaru manylion cyswllt sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc er mwyn sicrhau bod gweithgarwch ymgynghori â'r cyhoedd ar ddogfennau rhaglennu yn y dyfodol yn gwbl gynhwysol. Mawrth 2012.	Gwerthuso'r modd y gweithredir Thema Drawsbynciol Cydraddoldeb yn rhaglenni 2007-2013 ac ymgorffori'r canfyddiadau yn y gwaith o ddatblygu rhaglenni 2014. Rhag 2012. Cynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2014. Fe'i cwblheir ym mis Mawrth 2013.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
3.6 Sicrhau bod rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn asesu tystiolaeth am y bobl ifanc y mae'n eu helpu, er mwyn atgyfnerthu ei chyfraniad drwy leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.	Uned Cymunedau yn Gyntaf – Yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Gwerthuso'r modd y gweithredir Thema Drawsbynciol Cydraddoldeb fel elfen o raglenni 2007-2013 ac adeiladu ar y canfyddiadau wrth ddatblygu rhaglenni 2014. Rhag 2012. • Cynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2014. Fe'i cwblheir ym mis Mawrth 2013 (ar y cyd â chydweithwyr yn Uned y Gymraeg). • Rhoi cymorth a chanllawiau i randdeiliaid sy'n darparu sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET, gan eu galluogi i fanteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o Raglenni Cyllid Ewropeaidd 2014. O 2013 ymlaen. • Datblygu canllawiau i noddwyr a staff sy'n ei gwneud yn bosibl i integreiddio cydraddoldeb ym mhob agwedd ar raglenni 2014. Mai 2013. • Cynllunio fframwaith monitro sy'n cynnwys data ar amrywiaeth er mwyn dadansoddi prosesau integreiddio cydraddoldeb (ac ymgorffori gwelliannau) yn ystod cyfnod rhaglennu 2014 -2020. Mai 2013. • Datblygu Fframwaith Asesu a Monitro Cydraddoldeb ar gyfer staff WEFO ar geisiadau am brosiectau. Mai 2013.	
	• Asesu ceisiadau clwstwr Cymunedau yn Gyntaf am arian ar ffurflen gais, Cynllun Cyflawni a Chynllun Cynnwys y Gymuned. Sicrhau bod Cynllun Cynnwys y Gymuned yn cynnwys gwybodaeth am sut y bydd y Clystyrau yn cynnwys pob rhan o'r gymuned yng ngwaith y Clwstwr. • Sicrhau y caiff materion cydraddoldeb eu hystyried a'u hadolygu'n benodol fel rhan o weithgarwch goruchwylio Byrddau Rhaglenni Rhanbarthol. • Sicrhau bod Cynllun Gweithredu pob Clwstwr yn dangos sut y mae pobl leol yn cymryd rhan yn y gwaith o'i gyflawni (yn enwedig grwpiau lleiafrifoedd).	Bydd Cynlluniau Cyflawni Clystyrau yn seiliedig ar Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau, gyda dangosyddion perfformiad clir. Caiff perfformiad ei gasglu o leiaf unwaith y flwyddyn (bob chwarter yn y rhan fwyaf o achosion). Caiff y Cynllun Cynnwys y Gymuned Cyffredinol ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn. Caiff gwaith monitro data chwarterol ei ategu gan adroddiadau monitro blynyddol ac ymweliadau â phob Clwstwr.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
3.7 Sicrhau bod rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn asesu tystiolaeth gan awdurdodau lleol, fel rhan o'u hasesiad o anghenion lleol, er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.	Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd – yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Cynnwys yn y Fframwaith Canlyniadau ddangosyddion perfformiad sy'n mesur y cynnydd a wnaed tuag at ddangosyddion cenedlaethol megis canran y bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac eraill a fyddai'n effeithio ar bobl ifanc. • Gweithio tuag at y trefniadau ar gyfer dadansoddi'r broses adrodd yn erbyn y mesurau hynny i'w gwblhau erbyn 30ain Medi 2012 gan roi sylw wedyn i'r cyfnod adrodd cyntaf priodol. Cynnwys dadansoddiad o'r cynnydd a wnaed tuag at y canlyniadau yn y cyfnod adrodd cyntaf. • Sicrhau bod canllawiau i Glystyrau yn eu helpu i lunio eu Cynlluniau Cynnwys y Cyhoedd.	Caiff Byrddau Rhaglenni Rhanbarthol eu sefydlu i oruchwylio a chefnogi gwaith y Clystyrau.
	• Cyflwyno rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf o 1 Ebrill 2012 er mwyn datblygu gwasanaeth cymorth di-dor i deuluoedd ochr yn ochr â rhaglenni eraill megis Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf a'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd. Gyda phwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar ar gyfer teuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi. • Ei gwneud yn ofynnol i Setiau Dysgu ymarferwyr a rheolwyr rhwng Awdurdodau, wedi'u hanelu at rannu a chefnogi arfer gorau, ddod at ei gilydd mewn Setiau Dysgu cenedlaethol. • Adeiladu ar y £500k a ddyrannwyd, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Teuluoedd yn Gyntaf, ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi plant anabl a'u teuluoedd. Bwriedir i'r arian hwn gael ei ddarparu i'r arloeswyr presennol a'r arloeswyr newydd a chael ei rannu'n gyfartal rhyngddynt. Caiff yr elfen anabledd o'u cynllun ei llywio gan anghenion lleol.	Caiff pob cynllun ei fonitro a'i drafod â phob Awdurdod Lleol bob chwarter yn ystod y rhaglen 5 mlynedd. Mae'r model Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau yn cynnwys dangosyddion perfformiad lleol sy'n mesur y cynnydd a wnaed tuag at ddangosyddion cenedlaethol megis canran y bobl ifanc 11 a 13 oed sy'n gadael gofal yr ysgol ac nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Caiff y rhaglen ei hategu hefyd gan werthusiad a chontract cymorth pum mlynedd.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
3.8 Sicrhau bod yr amcanion Mynd i'r Afael â Thlodi sydd i'w cyflawni a'r Cynllun Gweithredu i Fynd i Afael â Thlodi yn y dyfodol yn cyd-fynd â'r amcanion cydraddoldeb ac yn cyfrannu at y gwaith o leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.	Yr Uned Mynd i'r Afael â Thlodi – Yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau ac Is-adran Cyflogadwyedd yr AdAS	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu

	• Cyflawni rhaglenni cyflogaeth newydd er mwyn helpu pobl ifanc i gael hyfforddiant a phrofiad gwaith gwerthfawr a nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys cynyddu nifer y Prentisiaethau a buddsoddi mewn sgiliau; gweithredu Twf Swyddi Cymru o 1 Ebrill 2012, gan greu 4,000 o swyddi bob blwyddyn i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed.
	• Croesgyfeirio gwaith yn y Cynllun Gweithredu i Fynd i'r Afael â Thlodi ag amcanion cydraddoldeb gan gynnwys mewn perthynas â'r canlynol:
	  • Gofal plant fforddiadwy o safon;
	  • Camau gweithredu cynnar sydd wedi'u targedu i atal pobl ifanc rhag gadael addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth;
	  • Cyngor ar ddyledion.
		Caiff gweithgarwch monitro ac adolygu eu hymgorffori yn y Cynllun Gweithredu i Fynd i'r Afael â Thlodi pan gaiff ei lansio.

Amcan 4:

Lleihau nifer yr achosion o bob math o drais yn erbyn merched, cam-drin yn y cartref, trais er 'anrhydedd', troseddau casineb, bwlio a cham-drin pobl hŷn.

Rhesymeg:

Mae troseddau casineb a thrais yn erbyn y rhai â nodweddion gwarchodedig yn gyffredin – gall effeithio ar eu hiechyd a'u lles, eu haddysg, eu cyflogaeth a chydberthnasau personol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r agenda bwysig hon drwy sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trawslywodraethol a phum grŵp rhanddeiliaid ar draws nodweddion gwarchodedig hil, crefydd a chredo, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd er mwyn datblygu Fframwaith Gweithredu ar Droseddau Casineb i Gymru. Gall troseddau casineb ddechrau yn yr ysgol a chyn yr ysgol hyd yn oed, gyda bwlio ac aflonyddu, a all effeithio ar gyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc yn ogystal â'u hiechyd a'u lles.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
4.1 Drwy'r Bil cefnogi Strategaeth 'Yr Hawl i Fod yn Ddiogel': gosod dyletswydd ar gyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus i roi strategaethau ar gyfer cam-drin yn y cartref a thrais yn erbyn merched ar waith a monitro'r camau a gymerir gan gyrff cyhoeddus i fynd i'r afael â'r ddau faes.	Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol – yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau	
4.2 Herio agweddau tuag at ferched sy'n anaddas bellach drwy fwrw ymlaen â'r Strategaeth 'Yr Hawl i Fod yn Ddiogel', 'Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Dull Partneriaeth'.	Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol – yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau	
4.3 Cydweithio â darparwyr gwasanaethau a sefydliadau perthnasol fel y byddant yn gallu nodi arwyddion o gam-drin yn y cartref yn well a chynorthwyo unigolion yn effeithiol, gan gynnwys drwy gynnig cymorth mewn amrywiaeth o ieithoedd, gan gynnwys Cymraeg, sy'n cael eu cam-drin yn y cartref drwy Brosiect 10,000 o Fywydau Diogelach.	Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol – yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau	

Portffolios Gweinidogol â chyfrifoldeb uniongyrchol:

- Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
- Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
- Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
- Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
- Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol

Amserlenni:

- Nod hirdymor yw hwn a gwneir cynnydd mesuradwy yn erbyn yr amcan hwn erbyn 2016. Caiff dangosyddion canlyniadau eu datblygu drwy Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) er mwyn mesur canlyniadau a dangosyddion.

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Disgwylir i'r Bil gael ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ddiwedd 2013.	Caiff cynnydd y Bil ei fonitro yn fisol gan Fwrdd Prosiect y Bil a bob yn ail fis mewn cyfarfodydd dwyochrog rhwng y Prif Weinidog Cymru a'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau.
	• Cyflawni'r strategaeth integredig chwe blynedd 'Yr Hawl i Fod yn Ddiogel', fel y'i nodir yn y cynllun gweithredu tair blynedd cysylltiedig (2010-2013). Mae'r cynllun gweithredu yn ategu'r strategaeth ac mae wedi cyflawni rhai targedau; parhau i gyflawni targedau y disgwylir eu cwblhau erbyn gwanwyn 2013.	Caiff cynnydd ei fonitro drwy Fwrdd Trais yn Erbyn Merched a Cham-drin yn y Cartref (VAWDA) a phedwar grŵp cyflawni cysylltiedig y disgwylir iddynt gyfarfod tair gwaith y flwyddyn.
	• Ystyried materion sy'n dod i'r amlwg o chwe gweithdy rhanbarthol a gynhelir ledled Cymru i lywio prosiect 10,000 o Fywydau Diogelach. Datblygu cynllun gweithredu erbyn diwedd haf 2012.	Caiff cynnydd ei fonitro drwy Fwrdd VAWDA a phedwar grŵp cyflawni cysylltiedig y disgwylir iddynt gyfarfod tair gwaith y flwyddyn.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
4.4 Parhau i ariannu'r broses o benodi cydgysylltydd cyntaf Cymru ar gyfer masnachu mewn pobl er mwyn gwella'r wybodaeth sydd ar gael ar lefel y masnachu mewn pobl yng Nghymru, codi ymwybyddiaeth o'r broblem a sut i fynd i'r afael â hi.	Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol – yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau	
4.5 Adeiladu ar 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel', gweithio gyda'r heddlu a phartneriaid i wella tystiolaeth a gwaith dadansoddi o ran trais er 'anrhydedd' ac ystyried ymyriadau priodol.	Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol – yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau	
4.6 Datblygu Fframwaith Gweithredu ar Droseddau Casineb i Gymru gyfan drwy ddatblygu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trawslywodraethol a grwpiau rhanddeiliaid i ddatblygu a chyflawni Cynlluniau Gweithredu ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig, sef hil, crefydd/credo, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu'r argymhellion o ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i aflonyddu sy'n ymwneud ag anabledd:	Yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant – yr Adran Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Datblygu rhagor o gamau gweithredu i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl yng Nghymru fel rhan o Strategaeth yr Hawl i Fod yn Ddiogel; mae hyn yn dilyn penodi'r Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl ym mis Ebrill 2011 ac ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r materion a hyfforddiant ledled Cymru.	Caiff y cynnydd a wneir ei fonitro drwy Fwrdd Gweithredu a grŵp Cyflawni VAWDA.
	• Gweithio gyda Chymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru (ACPO Cymru), Cymorth i Fenywod Cymru, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Sefydliadau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU a Llinell Gymorth Genedlaethol Cymru i gasglu data sy'n ymwneud â thrais er anrhydedd er mwyn helpu i nodi maint y broblem a lle mae'n codi amlaf. (Ebrill 2013). • Defnyddio gwaith dadansoddi data i ddatblygu a llywio strategaeth hyfforddi VAWDA er mwyn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol rheng flaen yn rhoi ymateb priodol i ddioddefwyr trais er anrhydedd. (Ebrill 2013). • Defnyddio gwaith dadansoddi data i helpu i nodi lle mae angen darparu gwasanaethau. (Mehefin 2013).	Caiff y rhain i gyd eu monitro a'u hadolygu gan Fwrdd Gweithredu VAWDA sy'n cyfarfod yn chwarterol.
	• Datblygu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trawslywodraethol i weithredu'r Fframwaith sy'n seiliedig ar weithredu y cynhelir ei gyfarfod cyntaf erbyn 2012. • Datblygu pum grŵp rhanddeiliad yn cwmpasu pob un o'r nodweddion gwarchodedig i ddatblygu a chyflawni Cynlluniau Gweithredu erbyn 2012. • Cynnal tair Cynhadledd/tri Ymgynghoriad sy'n cwmpasu Cymru Gyfan i fwydo gwybodaeth i'r broses o ddatblygu'r Fframwaith erbyn hydref 2012. • Bwrw ymlaen â chyfarfodydd a rhoi canfyddiadau ar waith ar draws grwpiau i ddatblygu Fframwaith drafft ar egwyddorion Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau erbyn gaeaf 2012. • Cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y Fframwaith erbyn 2013. • Datblygu Fersiwn terfynol o'r Fframwaith a'i gwblhau erbyn 2013.	Datblygiad y Fframwaith i'w adolygu a'i weithredu gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trawslywodraethol drwy Gylch Gorchwyl a ddatblygwyd.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
4.7 Defnyddio canfyddiadau sy'n deillio o brosiect Ymchwil i Droseddau Casineb Cymru Gyfan gan Brifysgol Caerdydd a Race Equality First i lywio gwaith gydag awdurdodau lleol a phartneriaid i fynd i'r afael â throseddau casineb. Datblygu gwaith ymchwil er mwyn deall yn well gymhellion ac amgylchiadau unigolion sy'n cyflawni troseddau casineb yng Nghymru.	Yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant – yr Adran Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad	
4.8 Gweithio gyda'r heddlu, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a phartneriaid i ystyried ffyrdd o gynyddu nifer yr achosion o drosedd casineb y rhoddir gwybod amdanynt ac edrych ar brotocolau rhannu data.	Yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant – yr Adran Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad	
4.9 Gweithio gyda phartneriaid i ystyried y ffordd orau o helpu cyflogwyr i ymdrin â throseddau casineb a hyrwyddo hyfforddiant i staff rheng flaen.	Yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant – yr Adran Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Datblygu manyleb ar gyfer ymchwil i'r ffactorau sy'n ysgogi troseddau casineb at ddibenion tendro erbyn diwedd haf 2012. • Cwblhau'r gwaith ymchwil erbyn hydref 2012 a gaiff ei fwydo i'r broses o ddatblygu Fframwaith Gweithredu. • Dadansoddi canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o Brosiect Troseddau Casineb Cymru Gyfan a'u bwydo i mewn (i'w gyflwyno erbyn hydref 2012 a chanfyddiadau terfynol erbyn haf 2013).	Gwaith ymchwil i'w lywio gan grŵp llywio bach sy'n cynnwys swyddogion o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Droseddau Casineb.
	• Datblygu cynllun peilot a gwerthuso Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) ar gyfer aflonyddu sy'n ymwneud ag anabledd drwy weithio gydag un o is-grwpiau Fforwm Amrywiaeth yr Heddlu Cymru Gyfan erbyn 2013. • Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Cymru gyfan ystyried materion sy'n ymwneud â rhannu data, gan gynnwys materion sy'n ymwneud ag aflonyddu lefel isel a nodi'r angen i gyhoeddi canllawiau erbyn 2013.	Is-grŵp Fforwm Amrywiaeth yr Heddlu Cymru Gyfan. Datblygiad y Fframwaith i'w adolygu a'i weithredu gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trawslywodraethol drwy Gylch Gorchwyl y cytunwyd arno.
	• Mapio awdurdodau yn y sector cyhoeddus sydd ag amcanion cydraddoldeb penodol o ran troseddau casineb erbyn mis Medi 2012. • Nodi a rhannu arfer da â phartneriaid ac awdurdodau yn y sector cyhoeddus gan gynnwys drwy adroddiadau trydydd partïon wrth ddatblygu Fframwaith Cymru Gyfan erbyn 2013. • Datblygu a chefnogi pum grŵp rhanddeiliaid ar draws nodweddion gwarchodedig hil, crefydd/credo, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd er mwyn datblygu cynlluniau gweithredu fel rhan o Fframwaith Gweithredu Cymru gyfan, gan gynnwys ystyried hyfforddiant.	Datblygiad y Fframwaith i'w adolygu a'i weithredu gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trawslywodraethol drwy Gylch Gorchwyl y cytunwyd arno.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
4.10 Adeiladu ar y pecyn cymorth troseddau casineb ar gyfer tai cymdeithasol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn cynnwys, o bosibl, waith gwerthuso, gwersi a ddysgwyd a gwaith adolygu.	Yr Is-adran Dai – yr Adran Tai, Adfywio a Threftadaeth	
4.11 Adeiladu ar yr ymchwil y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud i fwlio (2009) drwy ystyried gydag awdurdodau lleol ac ysgolion sut i wella tystiolaeth a gwaith dadansoddi o ran bwlio, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith ysgolion o'r canllawiau gwrth-fwlio dwyieithog newydd.	Y Gangen Lles Disgyblion – Yr Adran Addysg a Sgiliau	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Comisiynu gwerthusiad o'r Pecyn Cymorth Troseddau Casineb presennol a'r defnydd a wneir ohono gan ddarparwyr tai yng Nghymru – haf 2012. • Gwerthuso canfyddiadau a cheisio barn ar y newidiadau sydd eu hangen, gan gynnwys barn Fforwm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Landlordiaid Cymdeithasol Cymru – hydref 2012. • Ystyried pa newidiadau sydd eu hangen i'r Pecyn Cymorth Troseddau Casineb a chynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb os bydd angen – gaeaf 2012/13. • (Os bydd angen) Lansio Pecyn Cymorth newydd – erbyn haf 2013.	Y prosiect i'w ymgorffori yn y Cynllun Ymchwil i Dai ar gyfer 2012-13. Caiff yr ymrwymiad ei adlewyrchu yng Nghynllun Busnes yr Is-adran Dai ar gyfer 2012-13 a'i fonitro a'i adolygu fel rhan o'r broses honno. Bydd y Pecyn Cymorth newydd yn destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar yr adeg briodol yn ystod ei ddatblygiad.
	• Mewn adroddiad casglu tystiolaeth o holiaduron cyflawn awdurdodau lleol ynghylch y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ganddynt ar waith i fynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion. Ar sail hyn, nodi meysydd arfer da a'r rhai y mae angen eu gwella. Tynnu sylw awdurdodau lleol at ganfyddiadau'r adroddiad – hydref 2012. • Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol o Rwydwaith Gwrth-Fwlio Cymru i ddarparu cyfres o sesiynau briffio a gweithdai dwyieithog i ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r canllawiau gwrth-fwlio newydd. Gwerthuso lefelau ac effeithiolrwydd arfer cyfredol ymhlith cynrychiolwyr a nodi'r cysylltiadau rhwng rheoli ymddygiad bwlio mewn ysgolion a fframwaith arolygu Estyn – haf 2012. • Ysgrifennu at gynrychiolwyr ar ôl blwyddyn i adolygu'r cynnydd a wnaed – Haf 2013. • Comisiynu gwaith ymchwil i nifer o achosion o fwlio yng Nghymru. Bydd i'r gwaith ymchwil hwn yr un sail ag a ddefnyddiwyd yn 2009 a bydd yn rhoi syniad o ble mae cynnydd wedi'i wneud o ran lleihau lefelau bwlio a ble mae angen rhagor o waith – haf 2014.	Cynnal arolwg dilynol o bolisïau a gweithdrefnau awdurdodau lleol i nodi i ba raddau y mae enghreifftiau o arfer da wedi'u mabwysiadu a'u datblygu a sut mae awdurdodau lleol wedi mynd i'r afael â meysydd y mae angen eu gwella – haf 2013. Bydd Rhwydwaith Gwrth-fwlio Cymru yn defnyddio ffurflenni gwerthuso i nodi arferion cyfredol cynrychiolwyr a'r defnydd a wneir o'r canllawiau gwrth-fwlio newydd a dylanwad y canllawiau hynny.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
4.12 Gweithio gydag Estyn a rhanddeiliaid allweddol i barhau i adolygu effeithiolrwydd camau gweithredu i fynd i'r afael â bwlio ar sail nodweddion gwarchodedig disgyblion.	Yr Adran Addysg a Sgiliau yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant – yr Adran Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad	
4.13 Ystyried y potensial ar gyfer newid deddfwriaethol sy'n atgyfnerthu gweithgarwch amddiffyn oedolion drwy'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) a fydd, ymhlith pethau eraill, yn helpu i amddiffyn pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin.	Gwasanaethau Cymdeithasol Plant – yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	
4.14 Bydd dileu gwahaniaethu ar sail oedran wrth wraidd y cynigion ar gyfer Cam 3 o'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yn ystod y prosesau ymgysylltu ac ymgynghori. Bydd hyn yn ceisio mynd i'r afael â rhagfarn ar sail oed a'r ystrydebau negyddol o bobl hŷn yn y cyfryngau.	Strategaeth Pobl Hŷn – yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Gydag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru, Estyn a rhanddeiliaid allweddol ystyried bwlio mewn ysgolion yn sgîl y dystiolaeth a ystyriwyd yn Rhwydwaith Gwrth-fwlio Cymru.	I'w adolygu yn flynyddol o haf 2013.
	• Datganiad gan y Gweinidog sy'n nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu fframwaith cyfreithiol cydlynol er mwyn amddiffyn oedolion sydd mewn perygl – mis Hydref 2011. • Sefydlu'r Rhwydwaith Cynghori ar Ddiogelu ac Amddiffyn er mwyn sicrhau bod arbenigwyr ac ymarferwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu cynigion – Rhagfyr 2012. • Cyhoeddi ymgynghoriad ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) , sy'n cynnwys cynigion i gyflwyno fframwaith cyfreithiol i amddiffyn oedolion sydd mewn perygl, ac a fydd yn cynnwys sefydlu Byrddau Amddiffyn Oedolion statudol a Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol – Mawrth 2012. • Cyflwyno'r Bil drafft terfynol a fydd yn cynnwys darpariaethau cyfreithiol i atgyfnerthu'r trefniadau presennol i'r Cynulliad Cenedlaethol – Medi 2012. • Cyflwyno fframwaith cyfreithiol ar gyfer amddiffyn oedolion a sefydlu Byrddau Amddiffyn Oedolion statudol – mis Hydref 2013. • Sefydlu'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol – mis Hydref 2014. • Cyhoeddi canllawiau statudol i ddisodli 'Mewn Dwylo Diogel a Gweithio Gyda'n Gilydd' – 2014.	Llwyddo i basio'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) a gwaith dilynol i gyflwyno Rheoliadau a gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid i lunio canllawiau statudol.
	• Mae'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth i helpu i ddileu cam-drin yn erbyn pobl hŷn yn y bil gwasanaethau cyhoeddus ym mis Hydref 2012. Felly, o ddechrau 2012 bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys y bil hwnnw, a bydd hynny'n cynnwys y mesur ar ddiogelu.	Llwyddo i basio'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) a gwaith dilynol i gyflwyno Rheoliadau a gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid i lunio canllawiau statudol.

Amcan 5:

Mynd i'r afael â rhwystrau ac yn cefnogi pobl anabl er mwyn iddynt allu byw'n annibynnol a gwneud dewisiadau a rheoli eu bywydau bob dydd.

Rhesymeg:

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Anabledd Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu Fframwaith ar gyfer Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol i'w gwblhau erbyn haf 2012. Bydd hyn yn datblygu'r camau gweithredu a nodir isod ac yn cynnwys meysydd gweithredu eraill, gan adeiladu ar Faniffesto Anabledd Cymru ar gyfer Byw'n Annibynnol, ac ar weithgarwch ymgysylltu â phobl anabl a sefydliadau cynrychioliadol.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
5.1 Mynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag defnyddio trafnidiaeth gan eu galluogi i gymryd mwy o ran mewn gweithgareddau cyflogaeth, gweithgareddau hamdden a gweithgareddau cymunedol.	Y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth, yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau	
5.2 Sicrhau y gall plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol gael mynediad at yr addysg sydd ei hangen arnynt, gan gynnwys addysg cyfrwng Cymraeg, er mwyn tyfu'n oedolion annibynnol.	Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol – yr Adran Addysg a Sgiliau	

Portffolios Gweinidogol â chyfrifoldeb uniongyrchol:

- Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
- Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
- Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
- Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Amserlenni:

- Nod hirdymor yw hwn a gwneir cynnydd mesuradwy yn erbyn yr amcan hwn erbyn 2016. Caiff dangosyddion canlyniadau eu datblygu drwy Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) er mwyn mesur canlyniadau a dangosyddion.

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Bydd y Fframwaith ar gyfer Byw'n Annibynnol yn nodi cyfleoedd o ran y canlynol: • defnyddio cymorthdaliadau bysiau i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion unigolion; • gwella'r hyfforddiant staff a ddarperir i weithredwyr; • parhau i wella gorsafoedd; • gwella gwybodaeth i deithwyr; • parhau i wella cynllun y Bathodyn Glas.	Trefniadau i'w cynnwys yn y Fframwaith ar gyfer Gweithredu.
	• Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid rhoi system symlach sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn yn lle'r fframwaith statudol presennol ar gyfer anghenion addysgol arbennig. Mae'r dull gweithredu newydd wrthi'n cael ei brofi mewn wyth awdurdod lleol. Y cyfrwng deddfwriaethol fydd y Bil Addysg (Cymru) y disgwylir iddo gael ei gyflwyno yn 2013 ac ymgynghorir ar y cynigion yng ngwanwyn/haf 2012.	Cyflwynir y Bil yn 2013 a chaiff cynnydd ei fonitro.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
5.3 Gwella'r modd y mae'r stoc dai leol yn cael ei chynllunio a'i rheoli gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol er mwyn diwallu anghenion pobl o ran tai wedi'u haddasu a thai hygyrch yn well.	Yr Is-adran Dai – yr Adran Tai, Adfywio a Threftadaeth	
5.4. Sicrhau y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo annibyniaeth, dewis a rheolaeth, gan gynnwys mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â hyfforddiant a'r gweithlu.	Yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Casglu tystiolaeth o arolygon ynghylch y defnydd a wneir o Gofrestrau Tai Hygyrch yng Nghymru – Medi 2012 a rhoi cynllun gweithredu a'r camau nesaf ar waith erbyn diwedd Mawrth 2013. • Hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu Cofrestrau Tai Hygyrch ar y cyd fel rhan o'r rhaglen gydweithredol ar gyfer diwygio Llywodraeth Lleol – Ebrill 2012. • Ystyried canfyddiadau'r prosiect gwerthuso cyfredol ar grantiau Byw'n Annibynnol a rhoi'r gwersi a ddysgwyd ar waith. • Cyfleoedd pellach i'w nodi yn y Fframwaith ar gyfer Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol.	Y prosiect i'w ymgorffori yn y Cynllun Ymchwil i Dai ar gyfer 2012-13. Caiff yr ymrwymiad ei adlewyrchu yng Nghynllun Busnes yr Is-adran Dai ar gyfer 2012-13 a'i fonitro a'i adolygu fel rhan o'r broses honno.
	• Mae rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy'r Llywodraeth yn gweithredu cynllun cenedlaethol i ddiwygio'r modd y darperir gwasanaethau cymdeithasol. • Bydd y Llywodraeth yn gweithio'n agos gyda defnyddwyr gwasanaethau a phartneriaid cyflawni i ddatblygu model Cymreig o gymorth hunangyfeiriedig. Ymgynghoriad cyhoeddus i ddechrau ym mis Mai 2012. • Bydd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) yn creu pwerau cyfreithiol newydd yn ymwneud â phrosesau asesu a thaliadau uniongyrchol er mwyn sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaethau lais cryfach a mwy o reolaeth dros y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau cymorth. Disgwylir i'r Bil gael ei gyflwyno ym mis Hydref 2012. • Datblygu model asesu cludadwy i Gymru, er mwyn gwella a symleiddio prosesau asesu, a chanddo ethos o hyrwyddo annibyniaeth. • Datblygu prosiect peilot i brofi'r model asesu cludadwy, gwerthuso cynllun gweithredu cenedlaethol a chytuno arno erbyn mis Ebrill 2013, gan roi rheoliadau a chanllawiau ar waith erbyn mis Medi 2014.	Rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy dan arweiniad y Fforwm Partneriaethau Cenedlaethol a gadeirir gan y Dirprwy Weinidog. Mae Gweithredu'r Rhaglen yn rhan o Gompact Simpson y cytunwyd arno gan y Cyngor Partneriaethau Cenedlaethol ar 5 Rhagfyr. Mae grŵp gweithredu prosiect â chylch gorchwyl, aelodaeth y cytunwyd arni, rhaglen waith a dulliau gwerthuso ar waith.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
5.5. Sicrhau y gall pobl anabl gael gafael ar dechnoleg sy'n eu helpu i fyw'n annibynnol.	Yr Uned Cynhwysiant Digidol – Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Datblygu cynigion i gyflwyno arfer da o ran rheoli cyfarpar cymhleth er mwyn lleihau oedi a sicrhau gwell gwerth am arian o gyllidebau presennol. • Drwy Fframwaith Cynhwysiant Digidol a rhaglen gyflawni, Cymunedau 2.0, Llywodraeth Cymru, parhau i weithio gyda sefydliadau cynrychioliadol i gynyddu nifer y bobl anabl a all ddefnyddio'r rhyngrwyd i'w helpu i fyw'n annibynnol.	Trefniadau i'w cynnwys yn y Fframwaith ar gyfer Gweithredu.

Amcan 6:

Sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaethau wrth wraidd prosesau darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol, yn enwedig gwasanaethau iechyd, tai a gofal cymdeithasol, fel eu bod yn ymateb i anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig.

Rhesymeg:

Bydd sicrhau bod gwasanaethau yn addas i'r rhai â nodweddion gwarchodedig yn golygu eu bod yn addas i bawb. Felly, mae'r amcan hwn yn rhan annatod o'r broses o ddatblygu dull o ymdrin â gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Dylai sefydliadau ddeall pwy sy'n defnyddio eu gwasanaethau ac a ydynt yn fodlon arnynt a phwy sy'n anfodlon arnynt a pham nad ydynt yn fodlon arnynt. Mae hyn yn bwysig wrth weithio tuag at gydraddoldeb a chynhwysiant am fod llawer o grwpiau yn wynebu rhwystrau i ddefnyddio gwasanaethau ar hyn o bryd a dim ond drwy ddeall beth yw'r rhwystrau hyn y byddwn yn gallu eu dileu.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
6.1 Gweithio gyda darparwyr gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd i sicrhau y caiff y sail dystiolaeth ei datblygu a'i dadansoddi yn fwy effeithiol o ran unigolion â nodweddion gwarchodedig ac y caiff protocol ei ddatblygu ar gyfer rhannu gwybodaeth.	Iechyd Cyhoeddus Cymru – yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	

Portffolios Gweinidogol â chyfrifoldeb uniongyrchol:

- Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
- Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Amserlenni:

- Nod hirdymor yw hwn a gwneir cynnydd mesuradwy yn erbyn yr amcan hwn erbyn 2016. Caiff dangosyddion canlyniadau eu datblygu drwy Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) er mwyn mesur canlyniadau a dangosyddion.

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Ailgyhoeddi safonau iechyd a digartrefedd Llywodraeth Cymru ac iddynt ffocws newydd, gyda fframwaith dangosyddion a chanlyniadau ategol. Ailddrafft o'r safonau i'w ystyried gan y grŵp llywio iechyd a digartrefedd a phartneriaid yng ngwanwyn 2012. Safonau i'w cyhoeddi haf 2012. • Sipsiwn a Theithwyr – Mae gwaith cwmpasu yn mynd rhagddo i ystyried y ffyrdd mwyaf effeithiol o nodi cyfraddau llinell sylfaen o ran statws iechyd, ymddygiad sy'n ymwneud ag iechyd, mynediad, y defnydd a wneir o wasanaethau, effeithiolrwydd gwasanaethau ac ymyriadau ac ati. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthi'n pennu cwmpas y gwaith hwn. Cwblheir adroddiad ar yr argymhellion ar gyfer ffyrdd posibl o fwrw ymlaen â hyn erbyn diwedd mis Mawrth 2012 i'w ystyried gan Lywodraeth Cymru. Wedyn bydd gwaith yn dechrau ag amserlen y cytunwyd arni yn 2012 a fframwaith canlyniadau gwerthuso.	Caiff gweithgarwch monitro a gwerthuso eu hymgorffori yn y fframwaith canlyniadau. Cyflwynir adroddiad yn chwarterol i Dîm Cyfarwyddwyr Gweithredol yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant yn nodi a yw'r cynnydd a wnaed yn unol â'r ymrwymiad.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
6.2 Gweithio gyda chyrff cymwysterau proffesiynol a darparwyr hyfforddiant ym meysydd gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i ystyried sut y mae sensitifrwydd i anghenion unigolion wedi'i ymgorffori yn eu dull o weithredu, gan gynnwys anghenion y rhai sy'n siarad Cymraeg ac ieithoedd lleiafrifol eraill.	Timau Gweithredol ar y Cyd a Chyngor Gofal Cymru – yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Ceiswyr lloches – bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid yn cynnal adolygiad yn 2012/13 o wasanaethau iechyd sydd ar gael i geiswyr lloches mewn ardaloedd gwasgaru er mwyn nodi arfer gorau a chyfleoedd i wella gwasanaethau a lledaenu gwybodaeth. Ystyrir cwmpas yr adolygiad a'r flaenoriaeth y dylid ei rhoi iddo ym mis Mawrth 2012. Caiff y cyfarfod ei gadeirio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a bydd yn cynnwys pob ardal wasgaru yng Nghymru. Darperir adroddiadau adolygu interim i Grŵp Cynghori ar Iechyd Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid Cymru. • Gosod y sail dystiolaeth bresennol ar y porth gwybodaeth newydd erbyn 31 Mawrth 2013. • Comisiynu adolygiad ar gyfer y grwpiau newydd a enwebwyd erbyn 31 Mawrth 2013. • Ceisio ychwanegu'r grwpiau at systemau gwybodaeth newydd meddygon teulu erbyn 31 Mawrth 2013. • Ceisio ychwanegu'r grwpiau at systemau data gofal eilaidd y GIG erbyn 31 Mawrth 2013. • Ceisio ychwanegu'r grwpiau at y systemau gwybodaeth newydd arfaethedig ar gyfer casglu barn cleifion erbyn 31 Mawrth 2013. • Edrych ar opsiynau ar gyfer cysylltu'r systemau gwybodaeth hyn erbyn 31 Mawrth 2013.	
	• Sicrhau y caiff gofyniad i adolygu rhaglenni unigol er mwyn sicrhau y caiff sensitifrwydd i unigolion â nodweddion gwarchodedig ei gynnwys yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer (NLIAH) a'r Ddeoniaeth erbyn 30 Mehefin 2012. • Rhaglenni hyfforddi a datblygu eraill a gomisiynwyd ar lefel Cymru gyfan drwy NLIAH a'r Ddeoniaeth i'w harchwilio er mwyn sicrhau y caiff anghenion dysgu unigolion â nodweddion gwarchodedig eu diwallu. Yn benodol, caiff mynediad ei adolygu er mwyn sicrhau y gall aelodau o staff â nam ar eu synhwyrau gyfranogi'n llawn. Adolygiad i'w gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2012.	Monitro bob mis drwy'r system adolygu perfformiad yn rheolaidd. Monitro drwy Fforwm Partneriaethau Cymru yn ei gylch cyfarfodydd arferol. Cangen Bolisi SSSID fel y tîm noddi ar gyfer Cyngor Gofal Cymru yn cyfarfod â'r Cyngor yn rheolaidd i fonitro eu gweithgarwch mewn perthynas â'i gynllun busnes a fydd yn cynnwys gweithgarwch sy'n ymwneud â chydraddoldeb.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Hyfforddiant a ddarperir yn fewnol gan gyrff y GIG i'w adolygu mewn partneriaeth ag undebau llafur er mwyn nodi arfer da a'i rannu drwy lwyfan Dysgu'r GIG. Erbyn 31 Mawrth 2013. • Mae aelodau Cyngor Gofal Cymru yn cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr. Adroddiad blynyddol i ddarparu tystiolaeth o ymwneud Aelodau'r Cyngor â phob agwedd ar y gwaith o ddatblygu cymwysterau a'r gweithlu Mehefin 2012. • Bydd yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Cymwysterau yn cynnwys ymgynghoriad â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr a'u cyrff cynrychioliadol. Caiff tystiolaeth o'r ymwneud hwn ei chynnwys yn adroddiad yr ymgynghoriad ym mis Medi 2012. • Er mwyn sicrhau yr ymgynghorir yn eang ar ei amcanion cydraddoldeb, mae'r Cyngor Gofal yn gweithio gyda Diverse Cymru; caiff yr ymateb ei goladu erbyn Mai 2012. • Mae'n ofynnol i Ddefnyddwyr Gwasanaethau gael eu cynnwys yn uniongyrchol yn y gwaith o gynllunio a/neu gyflawni rhaglen Atgyfnerthu Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus (CPEL). Bydd tystiolaeth o'r cynlluniau i gyflawni'r Rhaglen ar gael erbyn Ebrill 2013. Effeithiodd barn gofalwyr yn uniongyrchol ar y canlyniadau dysgu ar gyfer y rhaglen Atgyfnerthu. • Defnyddio cystadleuaeth a digwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd i gasglu barn plant a phobl ifanc ar y nodweddion sy'n gwneud gweithiwr gofal cymdeithasol da i ddylanwadu ar y fframwaith Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer gweithwyr gofal plant Preswyl. Ar gael erbyn Ionawr 2013.	

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
6.3 Gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i roi llais cryfach i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr a chynyddu'r ffocws ar sicrhau bod yr unigolyn wrth wraidd y broses o ddarparu gwasanaethau.	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) – yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu

	• Cydweithio â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion ac Action on Heaing Loss (Cymru) i nodi, penodi a hyfforddi unigolion â nam ar eu synhwyrau fel adolygwyr ar gyfer ein rhaglen barhaus o adolygiadau 'Urddas a Gofal Hanfodol' erbyn Gorffennaf 2012.
	• Drwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru dechrau trafodaethau â sefydliadau yn y trydydd sector i ystyried cyfleoedd i nodi, penodi a hyfforddi unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol fel adolygwyr lleyg i weithio gyda ni i gyflawni ein rhaglenni arolygu ac ymchwilio cyffredinol erbyn Mehefin 2012.
	• Datblygu ymhellach ac atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â chleifion, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a'u teuluoedd i ddylanwadu ar ffocws ein gwaith a'r modd y'i cyflawnir. Mae camau gweithredu penodol yn cynnwys y canlynol:
	  • Gweithio gyda Chynghorau Iechyd Cymuned drwy Reolwr Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Chleifion ar y cyd i ddatblygu dull integredig o ymgysylltu â rhanddeiliaid erbyn Medi 2012.
	  • Ymestyn y trefniadau ar gyfer gweithio gyda grwpiau cynrychioliadol ac unigolion i 'brofi' cynlluniau a blaenoriaethau diweddaraf AGIC; dulliau newydd o ymgymryd â'n gwaith a methodolegau arolygu manwl i gefnogi ein rhaglenni adolygu unigol erbyn Medi 2012 ac yn barhaus.
		Mae holl waith AGIC (a nodir yn ein Rhaglen Tair Blynedd 2011-2014) yn cyfrannu ar y gwaith o gyflawni'r amcan hwn. Caiff y cyfraniad a wnaed tuag at gyflawni'r amcan hwn ei asesu'n barhaus.
		
		Bydd Bwrdd Rheoli AGIC yn goruchwylio'r broses weithredu; monitro cynnydd ac asesu effaith y camau a gymerwyd.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
6.4 Gweithio gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cymryd mwy o ran yn y broses arolygu ac yn gwneud mwy o gyfraniad ati a chynyddu'r ffocws ar sicrhau bod yr unigolyn wrth wraidd y gwaith o ddarparu gwasanaethau.	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru – yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau	
6.5 Gweithio gyda Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) Cymru er mwyn rhoi llais cryfach i blant/pobl ifanc o fewn y System Cyfiawnder Teuluol ac o fewn y gwasanaeth a ddarperir gan y sefydliad. Gwella'r modd y caiff gwybodaeth am grwpiau gwarchodedig ei chasglu a'i dadansoddi er mwyn ystyried sut i nodi a dileu rhwystrau i ddefnyddio gwasanaethau CAFCASS Cymru.	CAFCASS Cymru – yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Rhoddir dull a fformat arolygu newydd ar waith ar gyfer pob arolygiad o fis Ebrill 2012. • Pob arolygydd wedi cael hyfforddiant o ran y Fframwaith Arsylliadol Byr ar gyfer Arolygu (SOFI) 1af Hydref 2012. • Fframwaith barnu newydd wedi'i ddatblygu a'i weithredu ar y cyd ag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau Ebrill 2013. • Grŵp prosiect i ystyried cyfraniad aseswyr lleyg: i gychwyn Mawrth 2012, dod i ben (gan gynnwys treialon posibl) 1af Hyd 2012. Bydd gweithredu hyn yn dibynnu ar y model a fabwysiedir ond mae'n debygol o ddigwydd o fis Ebrill 2013. • Y grŵp prosiect i ddatblygu prosesau cynnwys dinasyddion mewn gweithgarwch cynllunio busnes, gwerthuso a rhoi sicrwydd yn rhanbarthol. I gychwyn ym mis Mai 2012 gyda'r nod o'i weithredu o fis Ebrill 2013.	Mae'r gwaith o reoli rhaglenni moderneiddio yn cynnwys bwrdd rhaglenni sy'n cyfarfod yn fisol a chyflwyno adroddiadau i lefel uchel, grŵp rhanddeiliaid allanol sy'n cyfarfod bob chwarter.
	• Datblygu a gweithredu pecyn adnoddau i Blant a Phobl Ifanc erbyn mis Ebrill 2012. • Adolygu gweithdrefn monitro amrywiaeth CAFCASS Cymru ar y cyd â'r Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant erbyn mis Mehefin 2012. • Ar ôl gweithredu'r weithdrefn monitro amrywiaeth ddiwygiedig, casglu data i ddadansoddi tueddiadau a nodi camau gweithredu i wella gwasanaethau i blant anabl erbyn mis Rhagfyr 2012. • Recriwtio Rheolwr Cyfranogi erbyn mis Ebrill 2012 i arwain y gwaith o weithredu rhaglen gyfranogi gyda phlant a phobl ifanc. • Datblygu poster ar gyfer Plant a Phobl Ifanc i sicrhau bod cynllun strategol CAFCASS Cymru yn haws ei deall. • Cyflwyno proses gwyno ddiwygiedig ar gyfer CAFCASS Cymru a'i gweithredu'n llawn erbyn mis Mehefin 2012. • Adolygu effeithiolrwydd Polisi Cwynion Plant CAFCASS Cymru erbyn mis Gorffennaf 2012. • Datblygu fframwaith asesu i'w ddefnyddio gan ymarferwyr CAFCASS Cymru erbyn mis Rhagfyr 2012.	Yn fuan bydd CAFCASS Cymru yn datblygu cynllun gweithredu ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth a ddefnyddir i fonitro'r camau gweithredu a nodwyd uchod. At hynny, rhoddir adroddiadau monitro chwarterol i uwch dîm rheoli CAFCASS Cymru yn nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r camau gweithredu.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
6.6 Atgyfnerthu'r sail dystiolaeth a dadansoddi tystiolaeth o'r ffordd y mae gwasanaethau tai drwy Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, landlordiaid preifat, rhaglen Cefnogi Pobl a gwasanaethau digartrefedd yn diwallu anghenion pobl, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig, er mwyn helpu i nodi problemau anghydraddoldeb a mynd i'r afael â hwy.	Yr Is-adran Dai – yr Adran Tai, Adfywio a Threftadaeth	
6.7 Atgyfnerthu'r sail dystiolaeth a gwaith dadansoddi gan y gwasanaethau cymdeithasol i helpu i nodi problemau anghydraddoldeb a materion sy'n effeithio ar y defnydd a wneir o wasanaethau a mynd i'r afael â hwy e.e. materion diwylliannol.	Yr Is-adran Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol – yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Defnyddio data newydd o'r cyfrifiad i gynyddu gwybodaeth am bwy sy'n byw ym mha dai yng Nghymru – pan fo ar gael a defnyddio data wrth ddatblygu a dadansoddi polisïau. • Rhoi canllawiau i landlordiaid ar eu rhwymedigaethau a nodi pa mor barod ydynt i'w cyflawni (haf 2012). • Bydd yr Is-adran Dai yn disgwyl i bob darparwr tai cymdeithasol roi system fonitro ystadegol effeithiol ar waith i denantiaid ac ymgeiswyr ar gyfer gwasanaethau tai a digartrefedd erbyn hydref 2013 ac adolygu'r canlyniadau gyda phob darparwr er mwyn deall pa broblemau anghydraddoldeb sy'n dod i'r amlwg. Lle y bo'n briodol, bydd yr Is-adran Dai yn ystyried comisiynu ymchwil ansoddol ategol er mwyn deall problemau a nodwyd yn well fel y bo'n briodol.	Caiff ei fonitro a'i adolygu fel rhan o'r Cynllun Ymchwil i Dai. Caiff ei fonitro a'i adolygu fel rhan o'r Cynllun Busnes i Dai. Caiff y gwaith o gasglu'r data hwn ei oruchwylio gan y Grŵp Gwybodaeth am Dai yn chwarterol. I'w adolygu bob tair blynedd.

	• Mabwysiadu dull newydd o ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n seiliedig ar Ganlyniadau. Bydd hyn yn golygu fframwaith mesur llawn i ddeall effaith a llwyddiant polisïau a phrosesau cyflawni. Mae'r amserlen ar gyfer cyflawni'r dull gweithredu diwygiedig hwn fel a ganlyn:
	  • Bydd y fframwaith perfformiad yn ei gwneud yn bosibl i wneud gwell defnydd o wybodaeth a rhannu gwybodaeth er mwyn gwella'r modd y darperir gwasanaethau a chanlyniadau lles i bobl mewn angen. Targed ar gyfer cwblhau'r fframwaith Hydref/Tachwedd 2012;
	  • Atgyfnerthu'r gallu dadansoddol drwy ffurfio tîm canoledig neu dîm rhithwir er mwyn sicrhau cysondeb gwybodaeth, tryloywder, ansawdd ac atebolrwydd. Bydd y gallu dadansoddol ar gael erbyn diwedd mis Rhagfyr 2012.
		Wedi'i gynnwys yn fframwaith adrodd Rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Caiff gweithgarwch monitro a gwerthuso ei ymgorffori yn y fframwaith canlyniadau – yn barhaus.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
6.8 Defnyddio tystiolaeth i annog dynion i ddefnyddio gwasanaethau iechyd yn fwy prydlon.	Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Is-adran Gwella Iechyd a'r Rhaglen Archwiliadau Iechyd – Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	
6.9 Hyrwyddo ymhellach ganllawiau ar gynllunio angladd Mwslimaidd a chydweithio rhwng awdurdodau lleol.	Fframwaith Moesegol a Pholisi ar Gladdu – yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Parhau i godi ymwybyddiaeth o broblemau iechyd dynion a thargedu unigolion mewn perygl drwy sesiynau sgrinio ffordd o fyw yn y gweithle, drwy wobrau Cymru Iach ar Waith (Safon Iechyd Gorfforaethol a Gwobr Iechyd y Gweithle Bach), erbyn mis Mawrth 2013. • Codi ymwybyddiaeth o dystiolaeth ynghylch mynediad cynnar at wasanaethau iechyd ymhlith cyflogwyr sy'n cymryd rhan yng nghynllun Cymru Iach ar Waith, erbyn mis Mawrth 2013. • Adolygu meini prawf iechyd cyffredinol y Safon Iechyd Gorfforaethol, gan gynnwys problemau iechyd dynion, erbyn mis Mawrth 2013. • Ystyried dulliau priodol o sicrhau bod gwybodaeth a chyngor am broblemau iechyd dynion ar gael fel rhan o'r rhaglen o archwiliadau iechyd blynyddol sy'n datblygu i bobl 50 oed a throsodd – erbyn mis Rhagfyr 2012. • Ymgorffori gwybodaeth a chyngor am broblemau iechyd dynion yn y rhaglen o archwiliadau iechyd sy'n datblygu – i'w weithredu o 2013 ymlaen.	I'w fonitro a'i adolygu drwy Gytundeb Lefel Rhaglen Cymru Iach ar Waith – Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. I'w fonitro drwy Gynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Iechyd, Gwaith a Lles rhaglen Cymru Iach ar Waith. Bydd llif gwaith prosiect i ddatblygu rhaglen o archwiliadau iechyd yn ystyried dulliau priodol o fonitro a gwerthuso'r rhaglen unwaith y bydd wedi'i gweithredu.
	• Gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ystyried sut y gellid hyrwyddo'r canllawiau ar gynllunio angladd Mwslimaidd ymhellach a ffyrdd y gall mwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol helpu i ddarparu gwasanaeth mwy cyson a phriodol ledled Cymru erbyn mis Ebrill 2013.	Adolygu a monitro cynnydd gan gynnwys y camau nesaf erbyn mis Ebrill 2013.

Amcan 7:

Gwella gweithgarwch ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a sicrhau eu bod yn cymryd mwy o ran mewn penodiadau cyhoeddus.

Rhesymeg:

Mae cynyddu nifer y grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn penodiadau cyhoeddus yn un o ddyheadau llawer o Lywodraethau ledled y byd. Mae'n bwysig o ran rhoi pŵer a llais i unigolion, gan sicrhau bod gan fyrddau sefydliadau amrywiaeth o brofiad a barn wrth wneud penderfyniadau a darparu modelau rôl.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
7.1 Gwella gwybodaeth a gwaith dadansoddi o ran grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn penodiadau cyhoeddus a'r rhwystrau i gyfranogiad ac ymgysylltu.	Yn Uned Penodiadau Cyhoeddus – Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol	
7.2 Gweithio gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Merched Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru, Merched yn Gwneud Gwahaniaeth a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i ystyried camau gweithredu y gellir eu cymryd i gynyddu cyfran y merched mewn penodiadau cyhoeddus.	Yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant – yr Adran Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad a'r Uned Penodiadau Cyhoeddus – Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol	

Portffolios Gweinidogol â chyfrifoldeb uniongyrchol:

- Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
- Yr Ysgrifennydd Parhaol

Amserlenni:

- Nod hirdymor yw hwn a gwneir cynnydd mesuradwy yn erbyn yr amcan hwn erbyn 2016. Caiff dangosyddion canlyniadau eu datblygu drwy Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) er mwyn mesur canlyniadau a dangosyddion.

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Adolygu gweithdrefn monitro amrywiaeth penodiadau cyhoeddus ar y cyd â'r Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant erbyn 30 Mehefin 2012.	Mae data monitro eisoes yn cael ei gasglu a chaiff ei ddadansoddi i werthuso effaith y camau gweithredu hyn ar amrywiaeth ymgeiswyr a'r rhai a benodir.
	• Rhwydwaith Cydraddoldeb Merched Cymru i weithio gyda Merched yn Gwneud Gwahaniaeth, a grwpiau arbenigol eraill yng Nghymru i nodi'r rhwystrau sy'n wynebu merched yng Nghymru sydd am fynd i mewn i fywyd cyhoeddus a datblygu opsiynau i oresgyn y rhwystrau hyn. • Sicrhau bod gan Rwydwaith Merched Cymru gyfan gynrychiolaeth arbenigol ar y grŵp penodiadau cyhoeddus a arweinir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a chyfrannu at opsiynau i sicrhau bod o leiaf 40 y cant o'r penodiadau i gyrff cyhoeddus yn ferched. • Gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Cyngor Chwaraeon Cymru, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac eraill, i ystyried pa gamau y gellid eu cymryd (gan gynnwys prosiect peilot posibl) i wneud y canlynol: • Codi ymwybyddiaeth a datblygu sgiliau ymgeiswyr posibl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys cynlluniau mentora a hyfforddi;	Mae data monitro eisoes yn cael ei gasglu a chaiff ei ddadansoddi i werthuso effaith y camau gweithredu hyn ar amrywiaeth ymgeiswyr a'r rhai a benodir.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
7.3 Gwerthuso pa fesurau a fu'n llwyddiannus o ran cynyddu cynrychiolaeth grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn penodiadau cyhoeddus gan ystyried yr hyn a fu'n llwyddiannus mewn mannau eraill, a phennu cwmpas camau gweithredu e.e. mentora, cysgodi, codi ymwybyddiaeth drwy'r gymuned.	Yn Uned Penodiadau Cyhoeddus – Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol	
7.4 Datblygu canllawiau arfer da ar benodiadau i gyrff cyhoeddus ar gyfer adrannau noddi gyda Llywodraeth Cymru.	Yn Uned Penodiadau Cyhoeddus – Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau Corfforaethol	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Sicrhau bod byrddau yn deall gwerth amrywiaeth; • Sicrhau bod cyfarfodydd byrddau yn ystyried trefniadau gweithio hyblyg a materion teuluol sy'n ymwneud â chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith er mwyn sicrhau eu bod yn fwy hygyrch i benodeion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a gwneud argymhellion erbyn 30 Medi 2012.	
	• Defnyddio canlyniad yr adolygiad o weithdrefnau monitro amrywiaeth i werthuso mesurau i gynyddu cynrychiolaeth grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol erbyn mis Hydref 2012. • Adolygu a diweddaru'r hyfforddiant ar gyfer ymgeiswyr posibl i'w helpu gyda'r broses gwneud cais a'r broses gyfweld a gwella eu siawns o lwyddo erbyn 31 Gorffennaf 2012. • Sicrhau bod pecynnau cais yn cynnwys gwybodaeth am anghenion gofalu a threfniadau eraill i helpu aelodau byrddau i sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith erbyn 31 Gorffennaf 2012.	Mae data monitro eisoes yn cael ei gasglu a chaiff ei ddadansoddi i werthuso effaith y camau gweithredu hyn ar amrywiaeth ymgeiswyr a'r rhai a benodir.
	• Llunio canllawiau arfer da newydd ar gyfer timau noddi erbyn haf 2012. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol: • sicrhau y caiff cyfleoedd eu hysbysebu'n briodol fel bod y wybodaeth yn cyrraedd amrywiaeth eang o ymgeiswyr posibl gan gynnwys y rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol; • sicrhau nad yw'r iaith a ddefnyddir mewn hysbysebion a deunydd arall mewn pecynnau cais yn allgau unrhyw grwpiau; • cyngor ar ddewis aelod annibynnol i wasanaethu ar baneli dethol aelodau er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i amrywiaeth fel rhan o'r broses; • cyngor ar oresgyn rhwystrau i gyfranogiad ac ymgysylltu.	Mae data monitro eisoes yn cael ei gasglu a chaiff ei ddadansoddi i werthuso effaith y camau gweithredu hyn ar amrywiaeth ymgeiswyr a'r rhai a benodir.

8. Ein Rôl fel Cyflogwr –

Yr hyn rydym yn ei wneud

Yn ddiau ein gweithlu yw ein hadnodd pwysicaf ac mae'n hanfodol i bopeth a wnawn i gyflawni dros bobl Cymru. Fel cyflogwr blaenllaw yn y sector cyhoeddus, rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a dileu pob math o wahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu yn y gweithle.

Bydd effaith pob un o'n polisïau adnoddau dynol yn parhau i gael ei asesu yn erbyn y nodweddion gwarchodedig wrth iddynt gael eu hadolygu

Mae ein cynlluniau lleoli, prentisiaethau a gweithgareddau meincnodi yn enghreifftiau o'n hymdrechion i ddangos arfer gorau o ran sicrhau gweithle mwyaf cynhwysol. At hynny, nod ein rhwydweithiau staff yw sicrhau amgylchedd cefnogol a diogel i'n pobl rannu syniadau, codi pryderon a dylanwadu ar bolisïau ac arferion sefydliadol.

Mae sicrhau gweithlu mwy amrywiol sy'n adlewyrchu'r gymuned a wasanaethir gennym yn well yn parhau'n ganolog i'n hymdrechion i greu gweithle cynhwysol a dynamig. Bob blwyddyn rydym yn llunio Adroddiad Cydraddoldeb Cyflogwyr sy'n olrhain y cynnydd rydym yn ei wneud o ran cyflawni hyn ac yn rhoi meincnod i'n gwaith wrth fynd ymlaen. Ceir copi o Adroddiad Cydraddoldeb Cyflogwyr 2010-11 ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ein Gweithlu

Yn hanesyddol mae systemau casglu data Llywodraeth Cymru wedi mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb. Mae hyn wedi galluogi'r sefydliad i greu darlun cynhwysfawr o amrywiaeth y gweithlu boed hynny o ran oedran, crefydd a chredo neu gyfeiriadedd rhywiol. Gyda chymorth cyfraddau datgan uchel ymhlith staff, rydym wedi

llwyddo i fapio ein gweithlu a chyflwyno mesurau cadarnhaol megis targedau ar gyfer recriwtio grwpiau gwarchodedig i fandiau Swyddogion Gweithredol, Rheolwyr a'r Uwch Wasanaeth Sifil a gyhoeddir yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb Cyflogwyr.

Mae dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cyflwyno heriau newydd i'n sefydliad ac, yn benodol, i'n systemau casglu a monitro data. Er enghraifft, nid yw data staff ar ailbennu rhywedd wedi'i gasglu fel rhan o'r drefn oherwydd pryderon ynghylch cyfrinachedd o gofio'r nifer fach o staff sy'n debygol o ddatgan y nodwedd warchodedig hon. At hynny, rydym wedi dibynnu ar systemau recriwtio a hyfforddi craidd i gasglu gwybodaeth am symudiadau ac anghenion hyfforddi staff. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod achosion lle mae gweithgareddau yn digwydd y tu allan i'r systemau hyn y mae angen i ni eu cofnodi ac rydym yn ymrwymedig i wneud hynny.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r mathau hyn o fylchau mewn data. Er enghraifft, caiff unrhyw ddeunydd recriwtio a systemau casglu data amrywiaeth cysylltiedig eu diweddaru i adlewyrchu gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. At hynny, bydd system adnoddau dynol newydd y bwriedir ei chyflwyno yn 2013 yn ei gwneud yn bosibl i gasglu data ar ragor o weithgareddau hyfforddi.

Fodd bynnag, ni allwn ddibynnu ar ein systemau casglu data yn unig. Felly, lle y bo'n briodol, gwneir gwaith i nodi a diwallu anghenion grwpiau gwarchodedig gan ddefnyddio dulliau eraill megis comisiynau casglu data pwrpasol neu weithdai staff.

Cyhoeddir y cynnydd rydym wedi'i wneud fel rhan o'r Adroddiad Cydraddoldeb Cyflogwyr ar gyfer 2011-12.

Asesu Perfformiad

Ein nod yw mynd ati'n weithredol i reoli perfformiad ein staff drwy safoni prosesau a gweithdrefnau perfformiad er mwyn sicrhau bod ein sefydliad yn cael ei redeg mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Byddwn yn sicrhau bod ein systemau yn helpu i nodi a diwallu anghenion datblygu o ran dyletswyddau cydraddoldeb. Bydd hyn yn cynnwys gwaith i sicrhau y cyfeirir yn benodol at gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y canllawiau a'r deunydd hyfforddi ar asesu perfformiad a'r angen i staff gofnodi unrhyw anghenion hyfforddi o ran y dyletswyddau cydraddoldeb ar eu cynlluniau datblygu personol. At hynny, erbyn mis Ebrill 2013 bydd newid i'n system adnoddau dynol newydd yn ei gwneud yn bosibl i gynnwys amcan cydraddoldeb ac amrywiaeth yn awtomatig fel rhan o gynlluniau perfformiad staff.

Y Gwahaniaeth mewn Cyflog

O dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) 2011 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol, wrth lunio Amcanion Cydraddoldeb, roi sylw priodol i'r angen i bennu Amcanion sy'n mynd i'r afael ag achosion unrhyw wahaniaeth mewn cyflog rhwng cyflogeion sy'n perthyn i grŵp gwarchodedig a'r rhai nad ydynt yn perthyn i'r fath grŵp, os ymddengys ei bod yn rhesymol debygol bod y rheswm dros y gwahaniaeth yn ymwneud â'r ffaith bod y cyflogeion hynny yn rhannu nodwedd warchodedig, mae angen cynllun gweithredu hefyd.

Cynllun Gweithredu

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal archwiliadau cyflog cyfartal rheolaidd a chyhoeddi'r brif wybodaeth am gyflog cyfartal fel rhan o'i Hadroddiad Cydraddoldeb Cyflogwyr blynyddol. Byddwn yn parhau i weithredu'r system gyflog gynyddrannol ar gyfer staff ym Mandiau Tîm i Swyddogion Gweithredol, a bydd Pwyllgor Cyflogau'r SCS (yr Uwch Wasanaeth Sifil) yn sicrhau y caiff materion cydraddoldeb eu hystyried ac yr eir i'r afael â hwy cyn gweithredu unrhyw newidiadau mewn cyflog i'r SCS.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliadau cyflog cyfartal rheolaidd ac yn cyhoeddi'r brif wybodaeth am gyflog cyfartal fel rhan o'i Hadroddiad Cydraddoldeb Cyflogwyr blynyddol.

Mae trefniadau eisoes ar waith i gasglu a monitro gwybodaeth. Nid yw'r dadansoddiad diweddaraf o gyflog cyfartal wedi nodi unrhyw faterion penodol sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig. Felly nid ydym yn bwriadu datblygu amcanion penodol ar gyfer cyflog. Rhoddir manylion system gyflog Llywodraeth Cymru isod.

Mae gan Lywodraeth Cymru system gyflog a system raddio ar wahân.

Bandiau Swyddogion Gweithredol, Rheolwyr a Thîm

Er mwyn mynd i'r afael â phroblemau cyflog cyfartal, cyflwynwyd graddfeydd cynyddrannol byr fel rhan o setliad cyflog sydd wedi ennill gwobr ym mis Awst 2001 (Gwobr Castle). Mae Gwobrau Castle yn un o gynlluniau Llywodraeth y DU y bwriedir iddo gydnabod rhagoriaeth mewn cyflogwyr sy'n gweithio i fynd i'r afael â phroblemau cyflog cyfartal. Cydnabuwyd y Cynulliad am ei waith wrth gynnal archwiliadau cyflog cyfartal ac ailffurfio ei system gyflog i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a nodwyd.

Yn achos y rhan fwyaf o staff sydd islaw band yr Uwch Wasanaeth Sifil, rydym yn gweithredu graddfa gyflog gynyddrannol chwe phwynt ar gyfer y Bandiau Swyddogion Gweithredol a Rheolwyr. Mae gan y band Cymorth Tîm raddfa dri phwynt.

Fel arfer caiff staff eu recriwtio ar waelod y raddfa gyflog ac maent yn symud i fyny'r raddfa bob blwyddyn, yn amodol ar berfformiad boddhaol, nes iddynt gyrraedd brig y raddfa (h.y. cyfradd y swydd). Gelwir y codiadau hyn yn godiadau cynyddrannol. Ar hyn o bryd, mae tua 50% o'n staff weddi cyrraedd y gyfradd ar gyfer y swydd Wrth i'r ganran hon gynyddu bob blwyddyn, bydd nifer y codiadau cynyddrannol mewn cyflog yn lleihau.

Fel arfer caiff codiadau mewn costau byw eu cymhwyso at bwyntiau'r graddfeydd pan gaiff y graddfeydd cyflog eu hadbrisio fel rhan o setliadau cyflog a negodwyd ac y cytunwyd arnynt gyda'r Undebau Llafur. O dan yr amgylchiadau hyn dim ond codiad mewn costau byw a gaiff staff y telir y gyfradd ar gyfer y swydd iddynt. Am fod cyflogau

wedi'u rhewi ar hyn o bryd yr unig bwynt graddfa sydd wedi cynyddu ers mis Ebrill 2009 yw'r uchafswm y band Cymorth Tîm.

Mae'r system gyflog wedi'i hategu gan system gwerthuso swyddi'r System Gwerthuso a Graddio Swyddi (JEGS) sy'n pennu band i bob swydd unigol.

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â'r Bandiau hyn.

Yr Uwch Wasanaeth Sifil

Yn achos yr Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) o fewn Llywodraeth Cymru, rydym yn gweithredu system gyflog Llywodraeth y DU sy'n cynnwys tri band cyflog llydan. Nid yw'r rhain yn raddfeydd cynyddrannol ac nid oes unrhyw sicrwydd y bydd unigolion yn symud i fyny o fewn y tri band cyflog llydan.

Fel arfer caiff staff eu recriwtio tua gwaelod y band cyflog llydan, er yr ystyrir pwysoliad y swydd a/neu gyfradd y farchnad wrth bennu'r cyflog y dylid ei nodi wrth hysbysebu swyddi.

Ceir dwy elfen o godiad cyflog yn yr SCS. Mae codiadau cyfun mewn cyflog sylfaenol yn seiliedig ar berfformiad, ac mae asesiadau o berfformiad wedi'u rhannu'n dair cyfran. Er enghraifft, gallai'r rhai yn y tranche uchaf gael codiad o 3% tra nad yw'r rhai yn tranche 3 yn cael dim byd. Am fod cyflogau wedi'u rhewi ni chafwyd unrhyw godiadau cyfun ers mis Ebrill 2009. Mae Swyddfa'r Cabinet wedi cadarnhau y bydd cyflogau yn parhau i gael eu rhewi tan fis Ebrill 2013 o leiaf.

Yn ogystal â'r codiad cyfun, mae gan swyddogion yr Uwch Wasanaeth Sifil hawl gytundebol i gael eu hystyried ar gyfer taliad amrywiadwy ar wahân yn seiliedig ar berfformiad. Ers 2010 mae'r taliadau hyn wedi'u cyfyngu i'r 25% uchaf o berfformwyr. Ni wnaed unrhyw benderfyniad ynghylch taliadau amrywiadwy ar gyfer blwyddyn berfformiad 2011-12.

Mae'r system gyflog wedi'i hategu gan system gwerthuso swyddi'r System Gwerthuso a Graddio Swyddi (JEGS) sy'n pennu band

i bob swydd. Mae Pwyllgor Cyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil yn ystyried yr amrediad cyflogau yn ystod y cylch cymedroli a hefyd pan gaiff unrhyw swydd ei hailwerthuso. Mae'r Pwyllgor yn cymryd camau os oes anghysondebau clir o ran cyflogau.

Datblygiadau Cyfredol

Am nad yw'r system yn system gynyddrannol ac mae codiadau cyfun a dyfarniadau cyflog amrywiadwy ar wahân yn seiliedig ar asesiadau o berfformiad, nid ydym yn bwriadu ymgymryd ag amcanion penodol o ran cyflog, ond er mwyn sicrhau bod pob asesiad o berfformiad a wneir gan Grŵp Cynllunio Cymedroli a Dilyniant yr Uwch Wasanaeth Sifil yn cael ei brofi yn erbyn y nodweddion gwarchodedig cyn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan Bwyllgor Cyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil. Bydd yn ofynnol i Bwyllgor Cyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil gadarnhau ei fod yn fodlon bod unrhyw faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb wedi'u hystyried cyn cymeradwyo unrhyw gynigion o ran dyfarniadau cyflog i'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ein systemau gwybodaeth ymhellach byddwn yn ailystyried y prosesau a ddefnyddir i bennu cyflogau a chytuno arnynt pan wneir penodiadau, gan gynnwys sut y caiff y wybodaeth hon ei chasglu. Bydd hyn yn cynnwys y ddau drefniant cyflog yn Llywodraeth Cymru.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud

Yn y dyfodol, bydd ein Hadroddiad Cydraddoldeb Cyflogwyr yn cynnwys gwybodaeth am ein gweithlu a'n gweithgareddau mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a, lle y bo'n bosibl, bydd yn ymestyn y tu hwnt i'r gofynion hyn i ddangos arfer gorau. Bydd hyn yn ein galluogi i:

- Deall amrywiaeth y gweithlu;
- Nodi 'mannau cyfyng' ar lefelau lle na cheir cynrychiolaeth ddigonol a chymryd camau;
- Nodi unrhyw effeithiau anghymesur a chymryd camau;

- Darparu ymyriadau hyfforddi pwrpasol (neu sydd wedi'u hintegreiddio'n well);
- Gwella ein sail dystiolaeth am anghydraddoldeb.

Rhoi Arweinyddiaeth Gref

Bydd arweinyddiaeth gref, cefnogol a gweladwy gan uwch reolwyr yn dal i ategu a llywio ein hymdrechion. Bydd y Bwrdd Cyflawni a Pherfformio Strategol, a gadeirir gan ein Hysgrifennydd Parhaol, yn trafod cydraddoldeb ac amrywiaeth o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Bydd hyn yn cynnwys gwaith i fonitro, adolygu a phennu targedau amrywiaeth yng ngraddau Swyddogion Gweithredol Rheolwyr a'r Uwch Wasanaeth Sifil yn flynyddol o fis Gorffennaf 2012.

Cyflawni ein Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Adnoddau Dynol

Mae'r ddogfen Strategaeth fewnol hon, a ddatblygwyd yn 2010, yn sail i'n gweithgareddau i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle. Mae'n pontio llawer o'n swyddogaethau fel cyflogwr a chaiff ei hadolygu i sicrhau bod ein hymrwymiadau yn cyd-fynd yn agosach â Deddf Cydraddoldeb 2010 a dyletswyddau cydraddoldeb ategol sy'n benodol i Gymru ac yn mynd y tu hwnt iddynt.

Amcan Cydraddoldeb Cyflogwyr

Rydym wedi penderfynu cynnwys Amcan fel rhan o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a fydd yn dangos ein hymrwymiad i sicrhau gweithle tryloyw, teg a chynhwysol. Caiff yr amcan ei adolygu a'i ddiweddaru fel y bo'n briodol wrth i ni ystyried dysgu ac adborth gan randdeiliaid allweddol. Crynhoir y meysydd gweithredu isod.

Cynnwys Staff a Gwrando Arnynt

Y prif ddulliau o gynnwys staff ac ymgysylltu â hwy yw arolygon blynyddol a rhwydweithiau amrywiaeth. Byddwn yn ceisio cynnig gwell llwyfan i alluogi staff sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (a'r aelodau hynny o staff nad ydynt yn eu rhannu) ddod at ei gilydd i drafod a rhannu syniadau. Caiff y cyfle i sefydlu rhwydweithiau staff ffurfiol ei ymestyn i gynnwys pob grŵp gwarchodedig gan alluogi staff i lywio polisïau ac arferion cyflogaeth.

Byddwn hefyd yn ystyried opsiynau ar gyfer cynnal 'arolygon yn y fan a'r lle' y bwriedir iddynt feithrin gwell dealltwriaeth o ganfyddiadau staff ynghylch polisïau ac arferion cyflogaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Hyfforddi a Rheoli Talent

Byddwn yn gweithio i ddenu mwy o staff o grwpiau gwarchodedig i wneud cais i ymuno â'n rhaglenni rheoli talent graidd. Bydd hyn yn cynnwys ymdrechion i ddeall anghenion grwpiau gwarchodedig yn well a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n eu hwynebu, o bosibl, o ran dilyn rhaglenni datblygu.

Mae ein rhaglen hyfforddiant craidd eisoes yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ond byddwn yn ei hadolygu ymhellach er mwyn adlewyrchu dyletswyddau'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gan bob aelod o staff well dealltwriaeth o gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd ym mhob rhan o'n sefydliad i hyrwyddo cyfle cyfartal i'n dinasyddion. Caiff opsiynau ar gyfer darparu ymyriadau wedi'u teilwra i staff mewn meysydd allweddol eu hystyried hefyd.

Amcan 8:

Creu gweithle mwy cynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal i staff â nodweddion gwarchodedig drwy wella gweithgarwch ymgysylltu â chyflogeion a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu sydd ar gael i bob aelod o staff.

Cefndir:

Dengys canfyddiadau'r Arolwg Pobl o'r ddwy flynedd flaenorol ynghylch cynhwysiant a gwahaniaethu/aflonyddu/bwlio fod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau cadarnhaol i sicrhau gweithle cynhwysol. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau hefyd yn dangos bod lle i wella o hyd. Bydd gweithgareddau y bwriedir iddynt wella gweithgarwch ymgysylltu staff â grwpiau gwarchodedig yn helpu staff i deimlo bod y sefydliad yn eu gwerthfawrogi ac yn eu parchu.

Yn ogystal â mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran polisïau'r llywodraeth a'r modd y darperir gwasanaethau, mae'n bwysig ein bod hefyd yn adlewyrchu'r egwyddorion hyn yn fewnol fel cyflogwr. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ein polisïau a'n harferion yn cael eu hystyried yn gynhwysol ac yn anwahaniaethol, a bod staff yn credu eu bod yn cael yr un cyfleoedd i ddysgu a datblygu.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
8.1 Cefnogi a galluogi cyflogeion Llywodraeth Cymru sydd â nodweddion gwarchodedig i ffynnu a gwireddu eu potensial a llywio polisïau ac arferion cyflogaeth.	Y Gangen Adnoddau Dynol, Cydraddoldeb a Chyflogaeth.	

Cyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Parhaol

Amserlenni:

- Nod hirdymor yw hwn a gwneir cynnydd mesuradwy yn erbyn yr amcan hwn erbyn 2016. Caiff dangosyddion canlyniadau eu datblygu drwy Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) er mwyn mesur canlyniadau a dangosyddion.

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Erbyn mis Medi 2012, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu ei threfniadau ar gyfer ymgysylltu â staff sy'n rhannu nodwedd warchodedig, ymgynghori â hwy a'u cefnogi er mwyn sefydlu rhwydwaith/ rhwydweithiau gweithredol ac effeithiol sy'n cynrychioli barn staff ar draws pob nodwedd warchodedig (neu o leiaf lle y mae buddiant cydnabyddedig). • Erbyn mis Ebrill 2013, bydd Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â'i rhwydwaith/ rhwydweithiau staff ac unrhyw randdeiliaid priodol eraill yn llunio strategaeth a chynllun gweithredu ar gydraddoldeb diwygiedig sy'n adlewyrchu blaenoriaethau ar y cyd ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle.	Bydd y Bwrdd Cyflawni a Pherfformio Strategol yn trafod ac yn adolygu gweithgareddau cydraddoldeb ac amrywiaeth o leiaf ddwywaith y flwyddyn er mwyn pennu cyfeiriad. Cytunir ar y strategaeth a chynllun gweithredu ar gydraddoldeb ar ffurf ddiwygiedig gan Uwch Reolwyr a chânt eu cynnwys yn y trefniadau adolygu a nodir gan y Bwrdd Cyflawni a Pherfformio Strategol.

Maes Gweithredu	Cyfrifoldeb	
8.2 Adeiladu ar ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a rhaglenni datblygu ehangach ymhlith staff a chymryd camau i sicrhau bod polisïau a phrosesau sy'n ymwneud â rheoli perfformiad yn codi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth.	Rheoli Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Gangen Adnoddau Dynol, Cydraddoldeb a Chyflogaeth Y Gangen Cyflog a Thaliadau Adnoddau Dynol	

	Camau Gweithredu ac Amserlenni Manwl	Monitro/Adolygu
	• Erbyn mis Ebrill 2013 bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu cynnwys y rhaglenni dysgu a datblygu craidd a gynigir ganddi a lefelau presenoldeb cysylltiedig a gwerthuso data i asesu a yw'r ddarpariaeth dysgu a datblygu gyfredol sy'n ymwneud ag ymwybyddiaeth o gydraddoldeb yn ddigonol i gynyddu lefelau ymwybyddiaeth o'r Dyletswyddau Cyffredinol a'r Dyletswyddau sy'n Benodol i Gymru a'u cynnal ym mhob rhan o'r sefydliad. Ac os nad ydynt yn gwneud hynny, llunio camau gweithredu i fynd i'r afael â meysydd y mae angen rhoi sylw iddynt. • Byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod rhaglenni rheoli talent yn gynhwysol. Bydd hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth ohonynt ymhlith grwpiau gwarchodedig drwy fynd i gyfarfodydd rhwydweithiau staff er enghraifft • Byddwn yn cynnal ymarfer i ddadansoddi presenoldeb ar raglenni hyfforddi y talwyd amdanynt o gyllidebau adrannol. • Erbyn mis Ebrill 2014 bydd Llywodraeth Cymru wedi gweithredu system adnoddau dynol newydd a fydd yn ein galluogi i gasglu gwybodaeth am y rhaglenni hyfforddi y mae ei chyflogeion yn gwneud cais amdanynt ac yn eu dilyn yn fwy effeithiol. • Erbyn mis Ebrill 2013, caiff canllawiau ar reoli perfformiad a chyrsiau hyfforddi i reolwyr llinell eu hadolygu a, lle y bo'n briodol, eu diweddaru er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn elfen bwysig ohonynt. Er enghraifft, ystyrir opsiynau ar gyfer defnyddio astudiaethau achos yn ystod cyrsiau hyfforddi sy'n dod â senarios yn fyw. • Erbyn mis Ebrill 2014 bydd Llywodraeth Cymru, fel rhan o systemau perfformiad a datblygiad staff, yn cymryd camau i atgyfnerthu cysylltiadau rhwng ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb a'r camau a gymerir i fynd i'r afael â hwy. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno system adnoddau dynol electronig newydd i wella prosesau casglu data a'r modd y caiff gweithgarwch rheoli perfformiad ei fonitro.	Rhan o Gynllun Gwaith RhNgCC. Caiff data cyflogaeth sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth y gweithlu ei gyhoeddi bob blwyddyn fel rhan o'n Hadroddiad Cydraddoldeb Cyflogwyr. Mae'r gwaith o ddatblygu system rheoli data adnoddau dynol newydd yn rhan o Strategaeth ehangach i'r sefydliad a chaiff ei fonitro a'i adolygu fel y bo'n briodol. Mae'r gwaith o ddatblygu system rheoli data adnoddau dynol newydd yn rhan o Strategaeth ehangach i'r sefydliad a chaiff ei fonitro a'i adolygu fel y bo'n briodol. Monitro demograffeg y broses grid naw blwch newydd (y fframwaith rheoli perfformiad) fel rhan o weithgarwch cynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau bod rheolwyr yn cydnabod anghenion datblygu unrhyw unigolyn â nodweddion gwarchodedig ac yn enwedig staff anabl ac yn darparu ar gyfer yr anghenion hynny. Mae angen i reolwyr fod yn ymwybodol o faterion cydraddoldeb a rhoi sylw i faterion cydraddoldeb yn ystod eu trafodaethau i asesu potensial; dylai cyfranogiad paneli cymedroli a Chynghorwyr Adnoddau Dynol yn y broses sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi.

9. Y Sail Dystiolaeth a Gwybodaeth Gyffredinol am Gydraddoldeb a ddelir gan Lywodraeth Cymru

Cynhaliwyd adolygiad a chwiliad llenyddiaeth o'r dystiolaeth ynghylch achosion anghydraddoldeb, yn seiliedig ar y themâu a ddefnyddiwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ei adolygiadau teirblwydd "How Fair is Britain" a "Pa mor Deg yw Cymru". Mae adolygiadau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r amrywiaeth a'r math o anghydraddoldebau a wynebir gan unigolion â nodweddion gwarchodedig ac, er mwyn osgoi dyblygu, canolbwyntiodd ein hadolygiad o dystiolaeth a llenyddiaeth ar nodi deunydd a ddarparodd dystiolaeth ar achosion anghydraddoldebau. Bydd defnyddio adolygiadau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn sail i'n hadolygiad o dystiolaeth yn ei gwneud yn bosibl i barhau i gymharu'r cynnydd a wnaed o ran materion cydraddoldeb rhwng Cymru a gweddill y DU.

10. Nodi Gwybodaeth Berthnasol a'i Chyhoeddi

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi cynllun ystadegau blynyddol rydym yn ei ddatblygu i greu cynllun dadansoddol mwy cyffredinol o 2012. Y nod yw y bydd ein hystadegau yn bodloni pedwar maen prawf, sef:

- Uniondeb – rhoi blaenoriaeth i'r buddiant cyhoeddus dros fuddiannau sefydliadol, gwleidyddol neu bersonol;
- Gonest – bod yn onest ac yn agored am yr ystadegau a'r dehongliad ohonynt;
- Gwrthrychedd – defnyddio dulliau gwyddonol i gasglu ystadegau a seilio cyngor ystadegol ar ddadansoddiad trylwyr o'r dystiolaeth;
- Diduedd – gweithredu yn ôl rhinweddau'r dystiolaeth ystadegol yn unig, gan wasanaethu pob agwedd ar y buddiant cyhoeddus yr un mor dda.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu **Cynllun Ymgysylltu â Defnyddwyr**, a **chynllun gwaith** dadansoddol blynyddol. Caiff y cynllun gwaith ei lunio ar sail ymarfer cynllunio mewnol i nodi anghenion â blaenoriaeth. Mae'r cynllun gwaith cyhoeddedig ei hun yn rhoi cyfle i amrywiaeth eang o randdeiliaid gyflwyno sylwadau ac adborth. Bydd hyn yn rhoi cyfle i barhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid a chynnal deialog â hwy. Mae'n ddull pwysig o gasglu gwybodaeth am gydraddoldeb a deall y rhwystrau sy'n wynebu unigolion, er enghraifft pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau neu'n ceisio cael swydd. Bydd y gweithgarwch ymgysylltu a chasglu tystiolaeth parhaus hwn yn bwydo i mewn i'r broses adolygu fel y caiff Amcanion eu haddasu dros amser neu'n wir eu newid i adlewyrchu anghenion unigolion sy'n newid.

Agwedd bwysig arall ar ein gweithgarwch ymgysylltu yw gweithio gyda grwpiau cynrychioliadol a gwrando arnynt er mwyn sicrhau y caiff y lleisiau, safbwyntiau, anghenion a phroblemau sy'n wynebu unigolion heddiw eu hadlewyrchu mewn prosesau gwneud polisïau a phenderfyniadau yng Nghymru.

O bryd i'w gilydd rydym yn ymgynghori'n ffurfiol ar ein rhaglen waith am sawl blwyddyn i ddod. Yn achos cyfresi data penodol cynhelir ymgynghoriadau ffurfiol i ddeall y galw am ein hystadegau a'r defnydd a wneir ohonynt, neu pan fwriedir gwneud newidiadau penodol a allai effeithio ar ddefnyddwyr.

Mae Ystadegau Gwladol hefyd yn cael eu hasesu gan Awdurdod Ystadegau'r DU ac mae sicrhau y caiff anghenion defnyddwyr eu diwallu yn rhan bwysig o ddynodiad Ystadegau Gwladol. At hynny, mae pob arolwg yn destun proses gymeradwyo ganolog sy'n ystyried yr ystod o gwestiynau a ofynnwyd.

Datblygwyd gwefan **StatsCymru** i gynyddu'r data a gyhoeddir gan gynnwys y gallu i roi dadansoddiad yn ôl nodweddion poblogaeth pwysig megis rhyw, ethnigrwydd ac ati pan fydd y set ddata yn caniatáu hynny. Nod y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu presenoldeb Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru ar y rhyngrwyd yw gwella tryloywder data yn gyffredinol. Er mwyn gwella'r sail dystiolaeth yn gyffredinol mae gwaith ymchwilio, a gefnogir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), yn mynd rhagddo i ystyried y potensial ar gyfer gwneud gwell defnydd o ddata gweinyddol.

Mae allbynnau Ystadegau ar gyfer Cymru ar gael am ddim drwy ein gwefan <http://www.wales.gov.uk/statistics>. Cyhoeddir gwybodaeth ymlaen llaw ar y dudalen "**I'w Cyhoeddi Cyn Hir** <http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/due/?lang=en>" ar y wefan, yn unol â Phrotocol Llywodraeth Cymru ar **Arferion Cyhoeddi** <http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/about/compliance/relelase/?lang=en>. Mae gwybodaeth

gyfatebol am ein hallbynnau a ddynodir yn Ystadegau Gwladol hefyd ar gael ar Ganolfan Gyhoeddiadau Ystadegau Gwladol y DU, yn unol â'r **Cod Ymarfer ar gyfer ystadegau swyddogol** <http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/about/compliance/?lang=en>. Rydym hefyd yn defnyddio Twitter i gyhoeddi cyhoeddiadau, ymgynghoriadau, digwyddiadau a newyddion eraill. Dilynwch @StatisticsWales neu ewch i http://www.twitter.com/statisticswales.

Ceir rhagor o wybodaeth am argaeledd y cyhoeddiadau hyn drwy'r Gwasanaeth Cyhoeddiadau drwy anfon neges e-bost i: stats.pubs@wales.gsi.gov.uk neu drwy ffonio: 029 2082 5044.

11. Y Broses Monitro ac Adolygu er mwyn i Lywodraeth Cymru gyflawni'r Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Penodol

Bwriedir i'r Rhaglen Lywodraethu lywio'r broses gyflawni ym mhob rhan o'r sefydliad a bydd cyhoeddi'r Amcanion Cydraddoldeb newydd yn sail ar gyfer diweddaru Pennod 8 o'r Rhaglen Lywodraethu – gan sicrhau bod y camau gweithredu, y mesurau llwyddiant a'r dangosyddion olrhain yn y ddwy ddogfen wahanol yn gyson. Caiff fframwaith canlyniadau a dangosyddion ei ddatblygu drwy'r broses Canlyniadau Seiliedig ar Atebolrwydd. Bydd hyn yn helpu i nodi dangosyddion allweddol yn erbyn cynnydd a chaiff ei ymgorffori yn y Rhaglen Lywodraethu, a gaiff ei diweddaru erbyn mis Mai 2013.

Bydd yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn gyfrifol am oruchwyliaeth gorfforaethol a chydgysylltu cynnydd o ran cyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol. Bydd hyn yn cynnwys monitro camau gweithredu yn chwarterol a bydd yn cynnwys gweithio gydag adrannau lle y nodir cyfrifoldeb ar draws meysydd polisi.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad tryloyw a chadarn o'r cynnydd a wnaed yn flynyddol yn erbyn yr amcanion a nodwyd. Caiff y diweddariad hwn ei gyflwyno bob blwyddyn i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ ac i'r Cabinet. Caiff copi o'r Adroddiad ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd yr Adroddiad yn cynnwys asesiad o effeithiolrwydd y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb a bydd yn nodi camau gweithredu newydd a chamau gweithredu yn y dyfodol.

Caiff adroddiad gan Weinidogion Cymru ar sut mae awdurdodau cyhoeddus datganoledig yn cyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb gyffredinol ei gyhoeddi a'i anfon bob dwy flynedd. Bydd yr

adroddiad hwn yn ymgorffori gwybodaeth a chynnydd o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

At hynny, cynhelir adolygiad cynhwysfawr o amcanion a'r Cynllun Cydraddoldeb strategol bob pedair blynedd. Bydd yr adolygiad hwn yn nodi tystiolaeth newydd a bydd hefyd yn cynnwys adolygiad ymgynghori manwl gyda rhanddeiliaid ledled Cymru erbyn 1 Ebrill 2016.

Nodir yr amserlenni ar gyfer gwaith monitro ac adolygu yn y tabl isod:



12. Effeithiau ar Gydraddoldeb

Yn ddiweddar gwnaethom newid o ddull “Gwneud Polisïau Cynhwysol” i Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb, sef dull symlach. Mae Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan annatod o’r gwaith a wnawn. Rydym yn ymrwymedig i ymgorffori cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy gynnal asesiadau o’r effaith o ran nodweddion gwarchodedig oedran, anabledd, rhyw ac ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, hil a chrefydd neu gredo/diffyg credo. Wrth gynnal Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb rydym hefyd yn ystyried sut y gallai polisi newydd, diwygiedig neu bresennol effeithio ar bobl mewn gwahanol ffyrdd ar sail beichiogrwydd a mamolaeth.

Dull Llywodraeth Cymru o Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae tri cham ffurfiol i broses Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb Llywodraeth Cymru, sef:

- Sgrinio;
- Asesiad llawn o’r Effaith ar Gydraddoldeb;
- Adolygu.

Y cam sgrinio yw dechrau proses Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb. Ei ddiben yw nodi perthnasedd polisi neu arfer i gydraddoldeb a hawliau dynol. Dylid sgrinio holl bolisïau, arferion a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Ar ôl ystyried y dystiolaeth os deuir i’r casgliad nad oes gan y polisi na’r arfer fawr ddim perthnasedd, os o gwbl, i gydraddoldeb na hawliau dynol, fel arfer nid oes angen symud ymlaen i gynnal Asesiad llawn o’r Effaith ar Gydraddoldeb.

Mae’r Asesiad llawn o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn llywio’r broses o astudio’r polisi na’r arfer i nodi effeithiau andwyol neu negyddol drwy graffu ar y dystiolaeth. Mae’n asesiad manylach o nodau

ac amcanion y polisi, sy'n ystyried sut y maent yn ymwneud â chydraddoldeb, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y cam sgrinio.

Monitro a gwerthuso'r polisi neu'r arfer i nodi'r effaith

Fel rhan o'r trefniadau cyffredinol ar gyfer gwerthuso'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhelir gennym, rydym yn parhau â'r broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb drwy fonitro'r effaith ar grwpiau gwarchodedig tra'n gweithredu polisi, proses neu arfer. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid i drafod sut mae'r polisi neu'r arfer yn gweithio. Byddwn hefyd yn nodi lle y gellir gwneud gwelliannau er mwyn lleihau unrhyw effeithiau andwyol neu negyddol sy'n dod i'r amlwg neu lle y gall fod mwy o gyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb a chydberthnasau da.

Cyhoeddi

Mae Rheoliadau'r Dyletswyddau sy'n Benodol i Gymru yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi pob Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle mae'r effaith ar gydraddoldeb yn sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau y caiff pob asesiad o'r effaith ei gyhoeddi unwaith y bydd wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo a chyhoeddir y canfyddiadau wedyn ar y wefan.

13. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn Hyrwyddo Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Mae gan Lywodraeth Cymru rôl ddeuol o ran hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sef rôl Llywodraeth ac arweinydd strategol y Sector Cyhoeddus yng Nghymru a rôl cyflogwr.

Wrth gyflawni ein rôl fel Llywodraeth, rydym wedi ymgysylltu ac ymgynghori'n helaeth ar ein Dyletswyddau Cydraddoldeb ac mae'r gwaith hwn wedi esgor ar yr Amcanion Cydraddoldeb a geir yn y cynllun hwn. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi sefydliadau yn y trydydd sector sy'n gweithio'n ddiflino mewn partneriaeth â ni ac ar ein rhan i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant i bawb.

Yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDID)

Yr EDID sy'n gyfrifol am hyrwyddo a phrif ffrydio cydraddoldeb, hawliau dynol, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

Mae ganddo rôl arweiniol o ran sicrhau y caiff y darpariaethau allweddol ar gyfer Cymru o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a'r Dyletswyddau Penodol ar gyfer y Sector Cyhoeddus yng Nghymru eu prif ffrydio, eu gweithredu a'u cyflawni'n llwyddiannus. Mae EDID yn gyfrifol am gyhoeddi'r Amcanion Cydraddoldeb sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a goruchwylio'r gwaith trawsadrannol o gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb.

Bydd yn rhoi trosolwg o'r dyletswyddau cyffredinol ac yn cyflwyno adroddiadau ar y cynnydd a wnaed gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru o ran cydymffurfio â hwy yn rheolaidd; proses barhaus i sicrhau y gwneir cynnydd pellach o ran y ddyletswydd gyffredinol. Mae EDID hefyd yn llywio mewnbwn Llywodraeth Cymru i ddeddfwriaeth cydraddoldeb a'r gwaith

o gydgysylltu gwaith cydraddoldeb a hawliau dynol sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd (UE) a'r Cenhedloedd Unedig (CU).

Mae EDID yn rheoli'r gwaith o ymgysylltu â grwpiau cydraddoldeb cynrychioliadol gan sicrhau'r lefel briodol o ymgysylltu a chefnogaeth; mae'r grwpiau hyn yn cynnwys Fforwm Hil Cymru, Fforwm Cymunedau Ffydd, y Fforwm Ymfudwyr, y Grŵp Cynghori ar Gydraddoldeb i Bobl Anabl a Fforwm Cydraddoldebau'r Trydydd Sector.

14. Caffael

Gwerth Cymru yw cangen gaffael Llywodraeth Cymru. Mae'n hyrwyddo arfer gorau ym maes caffael a chydweithio rhwng pob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, gan helpu i sicrhau gwerth gorau o'r £4.3 biliwn a werir bob blwyddyn ar nwyddau a gwasanaethau.

Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru wneud y canlynol:

- ystyried a fyddai'n briodol i'r meini prawf dyfarnu ar gyfer y contract hwnnw gynnwys ystyriaethau i helpu i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol;
- ystyried a fyddai'n briodol nodi amodau i helpu i gyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol.

Mae Gwerth Cymru wedi datblygu nifer o adnoddau y gall sefydliadau eu defnyddio wrth ddatblygu eu polisïau neu eu prosiectau caffael er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb a chynlluniau ar gyfer gwella yn rhan annatod ohonynt. Anogir Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru i ddefnyddio'r Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy (SPAF) a'r Asesiad Risg Cynaliadwyedd (SRA), sy'n helpu sefydliadau i ystyried effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol caffaeliadau penodol.

Er mwyn annog sylfaen gyflenwi fwy cynhwysol, yn enwedig i gynnwys sefydliadau llai o faint, mae pob corff cyhoeddus mawr yng Nghymru wedi cymeradwyo Agor Drysau: Y Siarter ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig. Un o'r ymrwymiadau allweddol yn y siarter hon yw y dylid hysbysebu contractau mor eang â phosibl ac y dylid hysbysebu contractau gwerth mwy na £25,000 ar wefan GwerthwchiGymru.

Mae'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID) wedi'i datblygu. Ei nod yw symleiddio a safoni'r broses cyn cymhwyso. Mae'n cynnwys adran ar gydraddoldeb, gan helpu cyrff cyhoeddus i ddewis cwestiynau dethol priodol.

Er mwyn i brosesau caffael cyhoeddus yng Nghymru fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i sicrhau manteision i gymunedau lleol, mae Gwerth Cymru wedi darparu canllawiau ar Fanteision Cymunedol "Sicrhau'r Gwerth Gorau am Arian Cymru". Mae'r canllawiau yn helpu sefydliadau i ymgorffori cymalau cymdeithasol mewn contractau gwasanaethau a chontractau adeiladu mawr ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar greu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth i bobl mewn grwpiau difreintiedig neu grwpiau lleiafrifoedd.

Mae Gwerth Cymru yn cynnig hyfforddiant caffael helaeth i'r sector cyhoeddus a cheir gwybodaeth am gaffael ar y Canllaw Cynllunio Caffael ar y Wefan Gaffael Genedlaethol www.sell2wales.co.uk a www.buy4wales.co.uk

15. Diolch

Diolch yn fawr i bob un ohonoch a gyfrannodd at y gwaith o ddatblygu Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys yr Amcanion.

Rhoddodd unigolion a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws a digwyddiadau cydraddoldeb ac a ymatebodd i'n holiadur; ein partneriaid a sefydliadau rhanddeiliaid a fydd yn cydweithio â ni i'w cyflawni; staff o Lywodraeth Cymru, oll gadarnhad o'r anghydraddoldebau rydym yn ceisio mynd i'r afael â hwy a heb y cadarnhad hwn ni fyddem wedi gallu datblygu'r Amcanion Cydraddoldeb hyn a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl yng Nghymru.

Mae hyn yn nodi'r dechrau mewn sawl ffordd ac mae ein gweithgarwch ymgysylltu yn dechrau nawr o ran cyflawni'r Amcanion a monitro effeithiolrwydd y camau rydym yn eu cymryd i sicrhau'r canlyniadau rydym am eu gweld.

Yr Holiadur

Methodoleg

Defnyddiodd yr holiadur gwestiynau ‘caeedig’ yn bennaf (e.e. cwestiynau ‘Ie / Nage’) er mwyn lleihau’r amser roedd angen ei gymryd i gwblhau’r holiadur, ond roedd hefyd yn cynnwys cwestiynau ‘penagored’ i alluogi ymatebwyr i roi gwybodaeth ychwanegol os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Lluniwyd y cwestiynau fel y gallai unigolion a sefydliadau, yn ogystal â phobl â’r nodweddion gwarchodedig dan sylw neu hebddynt gwblhau’r holiadur. Darparwyd yr holiadur drwy holiadur ar y we, ar ffurf copi caled ac mewn fformat hawdd ei ddarllen.

Ni ellir ystyried bod canfyddiadau’r holiadur a gyflwynwyd yn cynrychioli barn y cyhoedd yng Nghymru yn gyffredinol, na sampl gynrychioliadol o’r unigolion hynny â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru. Ni ddewiswyd yr unigolion a ymatebodd i’r holiadur ar hap, yn hytrach unigolion oeddent a ddewisodd eu hunain. Oherwydd y niferoedd cymharol fach yn yr arolwg, yn enwedig yn achos rhai grwpiau cydraddoldeb, ni ellir dweud bod y canfyddiadau yn ‘ystadegol gadarn’. Serch hynny, mae canlyniadau’r holiadur yn rhoi rhyw syniad o beth yw’r materion cydraddoldeb allweddol i’r rhai a ymatebodd, ac maent yn rhoi syniad da o farn y cyhoedd yng Nghymru, sy’n cynnwys unigolion â nodweddion gwarchodedig ac unigolion heb nodweddion gwarchodedig.

Dadansoddi

Canfu gwaith dadansoddi fod ymatebwyr o'r farn mai Cyflogaeth oedd y maes lle roedd unigolion fwyaf tebygol o wynebu problemau neu anawsterau oherwydd eu nodwedd warchodedig. Daeth yn gyntaf ar gyfer chwech o'r wyth nodwedd warchodedig, yn gydradd gyntaf ar gyfer Cyfeiriadedd rhywiol ac yn ail ar ôl Tai ar gyfer nodwedd Priodas a Phartneriaeth Sifil.

Canfu gwaith dadansoddi yn ôl nodwedd warchodedig fod gwahaniaethau mewn ymatebion rhwng is-grwpiau'r nodweddion gwarchodedig (e.e. y bandiau oedran gwahanol yn achos nodwedd warchodedig oedran) a rhwng unigolion â'r nodweddion gwarchodedig perthnasol a hebddynt (e.e. unigolion anabl ac abl). Golygai hyn, yn achos rhai meysydd, nad oedd gradd gyffredinol o bwysigrwydd y maes dan sylw (h.y. ymatebion gan bob unigolyn) yn adlewyrchu'r radd a roddwyd iddo gan y grŵp nodwedd warchodedig perthnasol.

Mynegai Talfyriadau

AAA	Anghenion Addysgol Arbennig
AdAS	yr Adran Addysg a Sgiliau
ALN	Anghenion Dysgu Ychwanegol
BBaCh	Busnesau bach a chanolig
BETS	yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
CAFCASS	Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd
CPEL	Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus
CSAs	Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant
EDID	yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
EHRC	Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
EIAs	Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb
ESOL	Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill
ESRC	Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol
GP	Meddyg Teulu
GT Grant	Grant ar gyfer addysg plant o deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr
HBV	Trais er Anrhydedd
HIW	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
HR	Adnoddau Dynol
JEGS	System Gwerthuso a Graddio Swyddi
JESP	Gwerthuso Uwch Swyddi
LLWR	Cofnod Dysgwyr

MARAC	Asesiad Risg Amlasiantaeth
MEAG	Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig
NEET	Nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant
NLIAH	yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd
NSA	Yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol
PfG	Rhaglen Lywodraethu
PSAs	Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
RBA	Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau
SCS	Uwch Wasanaeth Sifil
SFW	Ffilmiau Cymdeithasol Cymru
SQUID	Y Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr
SRA	Asesiad Risg Cynaliadwyedd
STEM	Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg
UKHTC	Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU
UN	Y Cenhedloedd Unedig
UNCRC	Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
VAWDA	Trais yn erbyn Merched a Thrais yn y Cartref
WBL	Dysgu Seiliedig ar Waith
WEFO	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
WEN	Rhwydwaith Cydraddoldeb Merched
WG	Llywodraeth Cymru
WLU	Uned y Gymraeg